# Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
# Adroddiad Blynyddol 2013-2014

# Rhagair

### Sicrhau cydbwysedd effeithiol o dan *Gweddnewid Adsefydlu* – cydbwyso goruchwyliaeth addas â lle i arloesi

Yn y pen draw, yr unig ffordd o fesur gwerth gwasanaethau prawf a throseddu ieuenctid i'r cyhoedd yw yn ôl y graddau y maent yn lleihau aildroseddu. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu'r cyhoedd yw rhwystro troseddu. Mae'n gwbl iawn mai hyn yw'r canlyniad y mae'r cyhoedd yn ei fynnu gan y gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid, a'r canlyniad y mae holl weithwyr proffesiynol prawf a chyfiawnder ieuenctid eisiau ei gyflawni. Fel gweithwyr proffesiynol ymroddgar, dyma'r hyn sy'n eu gyrru bob dydd wrth eu gwaith. Ond yn fwy na dim, dyma'r hyn y mae dioddefwyr yn ei ddisgwyl a'i haeddu, a dyma felly yw'r hyn yn dylem ganolbwyntio ein sylw ar ei sicrhau.

Mae newidiadau *Gweddnewid Adsefydlu* yn y byd prawf yn amlwg yn rhai uchelgeisiol. Maent yn ceisio lleihau cyfradd aildroseddu trwy drawsnewid sylweddol a sylfaenol yn y trefniadau cyflwyno, ar raddfa a chyflymder na cheisiwyd o'r blaen. Fel pob newid sylweddol, mae *Gweddnewid Adsefydlu* yn dod ag ansicrwydd, pryderon didwyll a thrafod brwd yn ei sgil. I lawer o staff mae'n teimlo'n anodd ac yn heriol. Mae rhai nad ydynt yn cytuno â'r fethodoleg ac mae rhai'n gwrthwynebu ar sail ideolegol. Mae eraill, a minnau yn eu plith, yn cydnabod y risgiau sy'n dod gyda newid sylweddol, ond hefyd yn cydnabod y cyfle i arloesi, meddwl o'r newydd, a chael effaith sylweddol ar ganlyniadau aildroseddu.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais honno, bydd angen i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith chwarae eu rhan. Bydd y rôl a chwaraeir gan ddarparwyr yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac mewn carchardai yn allweddol. Fel arolygiaeth annibynnol mae arnom eisiau cael ein sicrhau bod darparwyr yn cynnig darpariaeth ddi-dor a di-wnïad o safbwynt defnyddwyr unigol. Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau prawf gymryd y cyfle hwn i edrych ar sut maent yn gweithio, a chynllunio sut y maent yn cysylltu â chydweithwyr sy'n gweithio gyda'r un unigolion ar draws y system. O safbwynt y defnyddwyr, sut bydd hyn yn teimlo, a fydd yn gwneud synnwyr ac yn gwneud gwahaniaeth? A fydd yn effeithiol?

Er enghraifft, a fydd staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn canolbwyntio'n ddigonol ar wella canlyniadau aildroseddu? A fyddant yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu'r ffordd y gweithredant eu gwaith sy'n ymwneud ag atal? A fyddant yn canolbwyntio'n ormodol ar ddarparu'r ymyraethau y maent wedi arfer â hwy? A fydd y system yn ei chyfanrwydd yn parhau i'w gwneud hi'n ofynnol i unigolion addasu i system cyfiawnder troseddol haearnaidd ac anhyblyg, gan golli cyfleoedd am hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigol? Credaf mai ateb cadarnhaol fyddai wedi bod i'r cwestiwn diwethaf yn llawer rhy aml yn y gorffennol, ac os na chredwch chi fi yna gofynnwch i droseddwyr beth yw eu barn hwy. Mae'n amlwg nad ydym yn gwneud digon o hynny ychwaith.

Yn yr un modd, os yw troseddwyr am gael eu rheoli'n effeithiol mewn carchardai mae angen ar frys am newid mewn trefniadau gwaith a diwylliant staff mewn carchardai i hwyluso'r gwaith sydd ei angen gydag unigolion yn ystod y rhan o'u dedfryd a dreulir yn y ddalfa. Dylai pob aelod o staff ym mhob carchar fod yn gweithio tuag at leihau'r risg o aildroseddu o'r funud y mae dedfryd o garchar yn cychwyn. Sut felly y bydd hyn yn gweithio? A yw llywodraethwyr carchardai'n chwarae cymaint o ran ag arweinwyr prawf ac eraill yn newidiadau *Gweddnewid Adsefydlu*? A ydynt hwy, a'u staff, yn deall beth sydd angen iddo ddigwydd os ydynt hwy am chwarae eu rhan? A yw'r her o gyfuno gwasanaethau i gyflwyno darpariaeth effeithiol drwy borth y carchar yn cael ei deall yn llawn?

Mae gan y cyhoedd ddisgwyliad teg bod y system cyfiawnder troseddol yn effeithio'n gadarnhaol ar raddau aildroseddu. Mae'r newidiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd wedi cael eu llunio'n benodol i sicrhau'r canlyniad hwnnw. Ond mae gennyf bryder y tu cefn

i’m meddwl, a allai beri rhwystr oni roddir sylw iddo. Fy mhryder i yw nad ydym byth wedi llwyddo i gael ateb i rwystr sylweddol ac anodd – y ‘system’ ei hun. Mae’n rhwystredig fod gennym ryw awydd llethol a chynhenid sy’n golygu bod yn llawer iawn gwell gennym fynnu bod yr unigolyn yn addasu gyda’r ‘system’, yn hytrach na chael hyd i ffordd o lunio ‘system’ sy’n gallu bod yn hyblyg i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Mae hyn yn dal i fod yn her ar draws gwasanaethau cyhoeddus, ac mae’n sicr yn her barhaus i’r system cyfiawnder troseddol.

Mae’r system wrth gwrs yn ei hanfod yn fawr a chymhleth, ond ni ddylai’r ffaith honno ein rhwystro rhag bod yn ddigon dewr i sefyll yn ôl o’r ffordd y caiff gwaith ei gyflawni ar hyn o bryd a chael hyd i ffordd o weithio’n wahanol, dysgu o’r hyn a gyflawnir, a defnyddio’r dystiolaeth o lwyddiant i ddatblygu cynigion ar gyfer gwasanaethau a gwella effeithiolrwydd. Mae cael hyd i ffordd o dorri’n rhydd o rwystrau’r ‘system’ a’r ffordd y’i cymhwysir i unigolion wedi bod yn un o rwystrau mwyaf y system ers blynyddoedd lawer, a bydd yn parhau i fod yn her sylweddol ym myd *Gweddnewid Adsefydlu.*

Y rheswm y mae hyn yn bwysig ar hyn o bryd yw y bydd, fel rhan o *Weddnewid Adsefydlu,* ar gyflenwyr gwasanaethau angen lle i arloesi, bod yn hyblyg a gwneud gwasanaethau’n ymatebol i anghenion unigol. Rwyf yn pryderu na fydd cyflenwyr efallai’n canolbwyntio digon ar eu tasg graidd o leihau aildroseddu os na fydd goruchwyliaeth o’r canol yn cael ei gydbwyso’n addas. Fy mhryder yn y lle cyntaf yw y gall yn hawdd fod awydd i or-reoli. Os caniateir i hynny ddigwydd gall yn hawdd arwain at brosesau biwrocrataidd dianghenraid a drud a fydd â’r risg o lethu cyflenwyr, a fydd yn mygu arloesi ac effeithiolrwydd ac a fydd yn sicr o wastraffu adnoddau gwerthfawr. Wrth ail-lunio’r system bydd yn gwbl allweddol cael hyd i’r cydbwysedd iawn rhwng cydymffurfio â chontractau a rheoli perfformiad ar y naill law, a’r rhyddid a’r gofod i arloesi ar y llall.

Mae’r llywodraeth, trwy *Gweddewid Adsefydlu,* yn awyddus i ddarparwyr arloesi a gwneud gwasanaethau’n ymatebol i angen unigol. Fel arolygiaeth, byddwn yn gweld trwy’n arolygiadau a yw hyn yn digwydd a’r effaith o ganlyniad ar aildroseddu. Os yw’r cydbwysedd yn iawn, mae’r nod o rwydwaith cynyddol effeithiol o wasanaethau prawf, yn y llysoedd, carchardai a’n cymunedau, sy’n lleihau aildroseddu a diogelu dioddefwyr yn llwyddiannus, yn fwy tebygol o gael ei sicrhau.

**Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi – Arolygu yn y 12 mis nesaf**

Nid oes unrhyw amheuaeth ein bod ar groesffordd. Fel pob rhaglen o newid sylweddol mae cam trosiannol *Gweddnewid Adsefydlu* yn dod â risg uwch yn ei sgil. Byddwn felly’n rhoi sylw penodol eleni i sicrwydd ynghylch y berthynas rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a’r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Trwy ein harolygiadau, bydd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn ceisio hwyluso arferion effeithiol mewn gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid, gan roi sylw manwl i geisio sicrwydd, dathlu a lledaenu’r arferion gorau a herio arferion gwael.

Rydym eisoes wedi cychwyn gwaith ar ein methodoleg arolygu newydd ar gyfer gwasanaethau prawf sy’n adeiladu ar brofiad y gorffennol ac sy’n canolbwyntio’n glir iawn ar ddarparu sicrwydd ar feysydd allweddol o ran arferion, ac ar adnabod arferion effeithiol, yn enwedig lle canfyddwn fod y gwaith yn gyrru lleihad mewn aildroseddu.



**Paul McDowell**
Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi

# Pennod 1

## Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

# Pennod 1
# Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

## Datganiad o ddiben

### 1.1

Arolygiaeth annibynnol yw Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, a ariennir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ein diben yw adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gydag oedolion, plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, gwaith ac iddo'r nod o leihau aildroseddu a diogelu'r cyhoedd, pwy bynnag sy'n ei gyflawni. Rydym yn arolygu ansawdd ac effeithiolrwydd (y canlyniadau a gyflawnir) gwasanaethau a ddarperir ac yn gwneud argymhellion sydd wedi eu llunio er mwyn cynorthwyo darparwyr i wella effeithiolrwydd eu gwasanaethau'n barhaus a gwella'u canlyniadau o safbwynt lleihau aildroseddu.

Wrth weithio'n unol â'n datganiad o ddiben:

- rydym yn ceisio cyfrannu at ddatblygu arferion effeithiol y sefydliadau yr ydym yn arolygu eu gwaith
- byddwn yn adnabod ac yn lledaenu'r arferion gorau ar sail canfyddiadau arolygiadau
- byddwn yn herio arferion gwael ac aneffeithiol ar sail canfyddiadau arolygiadau
- byddwn yn cyfrannu at ddatblygu polisi cadarn sy'n galluogi ac yn hwyluso arferion effeithiol ond sy'n osgoi dyblygu a biwrocratiaeth dianghenraid
- byddwn yn cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig trwy waith ar y cyd ag arolygiaethau eraill
- byddwn yn mynd ati o ddifrif i hyrwyddo amrywiaeth, o fewn ein sefydliad ein hunain, ond hefyd yn y sefydliadau yr ydym yn arolygu eu gwaith.

## Gwerthoedd

### 1.2

***Uniondeb***
Rydym yn gweithio mewn ffordd annibynnol, onest, agored, proffesiynol, teg a chwrtais.

***Atebolrwydd***
Rydym yn ddibynadwy ac yn cadw at y casgliadau a gyrhaeddwn ar sail tystiolaeth. Byddwn bob amser yn gwbl atebol am ein gweithredoedd.

***Effeithiolrwydd***
Rydym yn adrodd ac yn cyhoeddi canfyddiadau arolygiadau ar argymhellion ar gyfer gwella, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau ac arferion effeithiol, yn brydlon ac i safon uchel.

***Cynhwysiant***
Rydym yn hyrwyddo sylw i amrywiaeth ym mhob agwedd o'n gwaith, gan gynnwys o fewn ein arferion cyflogi a'n prosesau trefniadol ein hunain ac ymrwymwn i geisio cydraddoldeb canlyniadau i bawb.

## Trosolwg

### 1.3

Yn ystod y flwyddyn 2013-14 fe wnaethom y canlynol:

- parhau gyda'n rhaglen cymesur â risg o Arolygu Gwaith Troseddau Ieuenctid. O dan y rhaglen hon fe wnaethom gwblhau chwe Cydarolygiad Llawn a 30 Sgrinio Ansawdd Byr (mwy o wybodaeth ym Mhennod 4)
- cwblhau 12 arolygiad o dan ein rhaglen newydd o Waith Troseddau Oedolion (mwy o wybodaeth ym Mhennod 2)
- cwblhau 25 o arolygiadau o reoli troseddwyr mewn carchardai, ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (mwy o wybodaeth ym Mhennod 3)
- cyhoeddi pedwar adroddiad thematig, a gafodd eu harwain gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, ar garcharorion ar ddedfrydau oes, trefniadau cysylltu â dioddefwyr mewn Ymddiriedolaethau Prawf, y ffordd y caiff troseddwyr ag anableddau dysgu eu trin yn y system cyfiawnder troseddol – cam 1 o'r arestio at y dedfrydu, a'r dull Rheoli Troseddwyr Integredig (mwy o wybodaeth ym Mhennod 5).

Fe wnaethom barhau i roi sylw amlwg i ddiogelu'r cyhoedd, gan ddatblygu trefniadau i wella ansawdd arferion Amddiffyn y Cyhoedd a gwaith arall trwy feincnodi ansawdd gwaith.

## Gwaith arolygu

### 1.4

Ein diben wrth gyflawni'n gwaith yw:

- sicrhau Gweinidogion a'r cyhoedd fod gwaith troseddau oedolion a ieuenctid yn cael ei gyflawni'n effeithiol
- gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y gwaith yr ydym yn ei arolygu.

Mae ein methodoleg arolygu'n seiliedig ar asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith troseddau oedolion ac ieuenctid mewn sampl cynrychioliadol o achosion penodol o unigolion sydd wedi troseddu. Wrth archwilio'r sampl, barnwn a yw gwaith yn cael ei wneud yn ddigon da gyda'r unigolyn i gyflawni'r canlyniadau gofynnol ym mhob achos.

Rydym o'r farn y dylai arolygu fod yn gymesur ac yn canolbwyntio ar agweddau allweddol o'r gwaith lle mae arolygu uniongyrchol yn gwneud asesiadau na ellir eu gwneud yn hawdd trwy ddulliau eraill. Gan adlewyrchu hyn yn rhannol, rydym yn rhoi pwyslais canolog yn ein gwaith arolygu ar y materion cysylltiedig eraill o Amddiffyn y Cyhoedd ac Amddiffyn Plant.

## Cydarolygu'r system cyfiawnder troseddol

**1.5**

Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi wedi parhau i weithio gyda'r Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol ar y cynlluniau ar gyfer y Rhaglen Cydarolygiadau am bob blwyddyn, gan gynnwys y rheini ar gyfer y Rhaglen Cydarolygiadau am 2013-15.

## Trefniadau adrannol

**1.6**

Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n dal i gael ei lletya gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac, i ddibenion trefniadol, ei lleoli yn y Gr□p Cyfiawnder Troseddol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae dogfen fframwaith sy'n amlinellu'r berthynas rhwng Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael ar ein gwefan.

## Atebolrwydd a thryloywder

**1.7**

Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n cydnabod ac yn cymeradwyo'n llawn yr angen i bob sefydliad sector cyhoeddus fod yn amlwg atebol yn eu trafodion ariannol, yn enwedig o safbwynt talu costau. Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n cyrraedd gofynion y Weinyddiaeth Gyfiawnder am dryloywder 'cyrff hyd braich'. Yn ogystal, caiff costau'r Prif Arolygydd eu cyhoeddi ar ein gwefan.

## Gweithdrefn gwynion

**1.8**

Parhawn i fod wedi ymrwymo'n gadarn i sicrhau bod ein prosesau arolygu'n cael eu cynnal gydag uniondeb mewn ffordd broffesiynol, teg a chwrtais, yn unol â'n Gwerthoedd o Uniondeb, Atebolrwydd, Effeithiolrwydd a Chynhwysiant. Fodd bynnag, mae ein gweithdrefn gwynion (sydd ar gael ar ein gwefan) yn cydnabod y gall achlysuron o hyd lle mae sefydliad neu unigolyn sy'n ymwneud ag arolygiad yn dymuno cofrestru cwyn. Derbyniasom un g□yn o'r fath yn 2013-14.

## Strategaeth sicrhau ansawdd

**1.9**

Fel arolygiaeth annibynnol, mae angen i'n prosesau arolygu fod o'r safon uchaf fel bod y gwaith a arolygwn yn cael ei archwilio'n deg a'n bod yn cyrraedd ein dyfarniadau a'n canfyddiadau trwy brosesau cyson a thryloyw. Mae ein Strategaeth Sicrhau Ansawdd gynhwysfawr yn rhoi strwythur inni graffu ar ein trefniadau a'n prosesau, gan anelu at sicrhau ein bod yn rhoi dyfarniadau cyson a'n bod yn ddibynadwy trwy'n holl raglenni arolygu, a lle bo'n addas, rhwng y rhaglenni hynny a'i gilydd.

Mae ein strategaeth ar gyfer 2012-15 yn cynnwys deg elfen sy'n cynnwys prif agweddau ein gwaith:

- Recriwtio a datblygu ar gyfer y sawl sy'n arolygu ar ran Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.
- Amrywiaeth.
- Dewis samplau o achosion.
- Adborth defnyddwyr gwasanaethau o arolygiadau.

- Asesu achosion.
- Cyfweliadau a chyfarfodydd arolygu.
- Dadansoddi data.
- Ysgrifennu adroddiadau.
- Golygu adroddiadau.
- Cynhyrchu adroddiadau.

Gweithredir y rhain trwy bob un o'n prif raglenni arolygu.

## Diogelwch y cyhoedd

### 1.10

Rydym yn gosod pwyslais penodol ar waith amddiffyn y cyhoedd a phlant a phobl ifanc rhag niwed, gan na ellir mesur hyn yn hawdd trwy unrhyw ddull arall heblaw arolygiad annibynnol. O'r herwydd, mae'n enghraifft allweddol o lle a sut y mae arolygu'n ychwanegu gwerth mewn ffordd unigryw, ac mae craffu ar hyn yn ffurfio rhan annatod o'n methodoleg arolygu.

Mae'r gwaith hwn yn cwmpasu rhychwant eang ac yn cynnwys plant a phobl ifanc, ac oedolion bregus sydd naill ai mewn risg o niwed gan eraill neu o hunan-niweidio a'r unigolion hynny sy'n peri risg o niwed i'r gymuned. Mae ein dull o asesu effeithiolrwydd y gwaith a gyflawnir yn seiliedig ar ddwy egwyddor sylfaenol:

- Ni ellir byth ddileu risg yn llwyr, boed yn risg i'r unigolyn neu i'r cyhoedd, ond mae hawl gan y cyhoedd i ddisgwyl i'r asiantaethau perthnasol wneud eu gwaith yn iawn.
- Ystyr 'gwneud eu gwaith yn iawn' yw 'gwneud popeth y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ei wneud' – datganiad ansoddol yw hwn, ac un o resymoldeb, nid o berffeithrwydd.

Mae diogelwch y cyhoedd yn ffurfio llinyn pwysig sy'n rhedeg trwy'n holl waith.

Rydym wedi parhau i gymryd rhan yn y Panel Sicrhau Ansawdd ar gyfer adolygiadau o Droseddau Difrifol Pellach. Yn ogystal, rydym wedi cyflwyno hyfforddiant i aelodau o'r panel hwn, sy'n gynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) ac uwch reolwyr a dynnwyd o Ymddiriedolaethau Prawf. Fe'n cynrychiolir hefyd ar y Gr□p Llywio Cenedlaethol Awdurdodau Cyfrifol.

## Amrywiaeth

### 1.11

Ceisiwn integreiddio egwyddorion gorau amrywiaeth a chydraddoldeb i'n dull o arolygu, yn ogystal ag i'n ffordd o reoli'n staff ein hunain. Ein hamcanion yw ymdrin â materion amrywiaeth a chydraddoldeb fel y'u nodir yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2011-14 (ar gael ar ein gwefan).

Rydym o'r farn ei bod yn bwysig iawn archwilio materion amrywiaeth yn ein rhaglenni arolygu. Rydym wedi gosod meini prawf allweddol ym mhob un o'n prif raglenni i ddarganfod a yw unigolion sy'n troseddu yn cael eu trin yn gymesur ai peidio, heb unrhyw wahaniaeth ar sail eu nodweddion amrywiaeth. Yn y cyswllt hwn, rydym o bryd i'w gilydd yn dadansoddi ac yn cyhoeddi canfyddiadau arolygiadau yn ôl nodweddion amrywiaeth, fel y

gellir adnabod unrhyw anghymesuredd yn ansawdd y gwaith gyda gwahanol grwpiau o unigolion (yn ôl hil, rhyw, oedran, anabledd).
Ceisiwn hefyd integreiddio egwyddorion gorau amrywiaeth o fewn Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, o safbwynt sut yr ydym yn trefnu'n hunain ac yn trin eraill, a monitro sut yr ydym yn gwneud hyn. Yn y cyswllt hwn, rydym yn monitro nodweddion amrywiaeth staff Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn rheolaidd.

Dengys yr wybodaeth hon fod, ar ddiwedd mis Mawrth 2014, allan o gyfanswm staff Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, fod:

- 43% yn fenywaidd, 57% yn wrywaidd
- 6% o gr□p ethnig lleiafrifol, 94% yn wyn
- 5% yn ystyried bod ganddynt anabledd o fewn ystyr deddfwriaeth gwahaniaethu yn erbyn anabledd
- 8% yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, 82% yn heterorywiol [roedd yn well gan 10% beidio â dweud]
- 30% â chyfrifoldebau gofalu
- 18% o dan 35 oed, 16% yn 35-44 oed , 31% yn 45-54 oed a 35% yn 55 oed neu'n h□n.

Parhawn i weithio'n unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg, y cytunwyd arno gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Rydym yn cynnal tudalen Gymraeg ar ein gwefan ar faterion yngl□n â'r Gymraeg ac yn sicrhau bod ein panel o Arolygwyr Cyswllt yn cynnwys siaradwyr Cymraeg.

Rydym yn cynnal asesiadau effaith ar amrywiaeth ar gyfer y prif brosesau a gynhwysir o fewn ein holl raglenni arolygu rheolaidd.

## Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

### 1.12

Gall staff sy'n ymwneud ag arolygiadau o waith troseddau ieuenctid ddod i gyswllt uniongyrchol â phlant a phobl ifanc. Am y rheswm hwn, mae gan bawb o'r staff perthnasol wiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â'r disgwyliad sydd gennym ni wrth arolygu gwaith Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT).

## Staffio

### 1.13

Yn ystod 2013-14, gadawodd chwe aelod o staff yr Arolygiaeth, ac ymunodd saith aelod o staff â hi. Roedd y mwyafrif o'r staff a'n gadawodd yn gwneud hynny oherwydd iddynt gyrraedd diwedd eu secondiad gyda ni, er bod y gr□p hwn yn cynnwys hefyd ymddeoliad ein cyn-Brif Arolygydd, Liz Calderbank, ac un o Arolygwyr Ei Mawrhydi, Joy Neary. Dangosir ein gr□p staff fel yr oedd ar 31 Mawrth 2014 yn Atodiad A.

Mae ein gr□p staff yn meddu ar amrywiaeth o sgiliau a deuant o wahanol gefndiroedd, ac ymrwymwn i gynnal ac ymestyn y lefel hon o amrywiaeth. Rydym wedi cael ein helpu gyda hyn gan lawer o Ymddiriedolaethau Prawf, Timau Troseddwyr Ifanc a sefydliadau eraill sydd wedi secondio eu staff i ni. Rydym yn ddiolchgar am eu parodrwydd parhaus i wneud hynny.

Parhawn i gynnal panel o Arolygwyr Cyswllt, panel sydd bellach yn llai. Mae’r rhain wedi eu recriwtio i’r un safonau trylwyr â’n staff arolygu cyflogedig, mae Arolygwyr Cyswllt yn gweithio ar sail sesiynol, am ffioedd, ochr yn ochr â’n staff cyflogedig.

Yn ystod 2013-14 rydym wedi treialu trefniadau i gynnig lleoliadau tymor byr o dri i chwe mis i gydweithwyr sy’n gweithio yn y maes gyda phrofiad perthnasol mewn arolygiadau thematig yr ydym yn eu cyflawni. Rydym yn falch o ddweud bod hyn wedi gweithio’n dda iawn ac wedi rhoi ffynhonnell werthfawr o arbenigedd ychwanegol inni, tra ar yr un pryd yn cynnig cyfle i’r sawl a leolir i ddatblygu sgiliau arolygu ac ennill mwy o ddealltwriaeth o faes y pwnc a arolygir. O’r herwydd, bwriadwn barhau â’r trefniant hwn yn y flwyddyn sy’n dod.

# Pennod 2

## Arolygu Gwaith Troseddau Oedolion yn y Gymuned

# Pennod 2
# Arolygu Gwaith Troseddau Oedolion yn y Gymuned

## Trosolwg
## 2.1

Dechreuodd y rhaglen Arolygu Gwaith Troseddau Oedolion ym mis Ebrill 2013. Hyd yma, rydym wedi arolygu gwaith mewn 12 Ymddiriedolaeth Brawf, gyda'r olaf o'r adroddiadau hyn i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn llunio rhaglen drosiannol ar gyfer y flwyddyn 2014-15, lle bydd y berthynas rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cael sylw allweddol.

## Cyflwyno Arolygiadau Gwaith Troseddau Oedolion
## 2.2

Yn ystod chwe mis cyntaf 2013-14, cynaliasom arolygiadau'n canolbwyntio ar waith gyda phobl a oedd wedi cyflawni troseddau treisgar, yn Swydd Bedford, Glannau Mersi, Dyfnaint a Chernyw, Hampshire, Northumbria a Swydd Northampton. Mae ein samplau o achosion wedi cael eu tynnu o'r gwaith a gyflawnir gan Ymddiriedolaethau Prawf. Cyhoeddasom adroddiad ar y casgliadau cyflawn o'r arolygiadau hyn ym mis Ebrill 2014.

Yn ystod ail hanner y flwyddyn, fe wnaethom ganolbwyntio ar waith Ymddiriedolaethau Prawf i amddiffyn plant a phobl ifanc. Arolygasom sampl eang o achosion, er mwyn archwilio a oedd materion diogelu plant yn cael ystyriaeth addas ym mhob achos, yn cael eu hadnabod yn gywir a'u hasesu a'u rheoli'n addas lle bo hynny'n berthnasol. Cyflawnwyd yr arolygiadau hyn yng Nghaerefrog a Gogledd Swydd Efrog, Norfolk a Suffolk, Caint, Durham Tees Valley, Llundain a Chymru. Byddwn  yn cyhoeddi adroddiadau ar y casgliadau cyflawn o'r arolygiadau hyn yn hwyrach yn 2014.

Ym mhob arolygiad unigol rydym wedi archwilio rhwng 50 a 100 o achosion, gan ddibynnu ar faint yr Ymddiriedolaeth Prawf.

Caiff y gwaith gyda phob unigolyn ei archwilio'n fanwl trwy gyfweliad gyda'r rheolwr troseddwyr ac arolygiad o gofnodion yr achos. Rydym yn gwneud dyfarniadau ynghylch ansawdd y gwaith sy'n ymwneud â phum maes allweddol:

- Cynorthwyo dedfrydu.
- Cyflawni dedfryd y llys.
- Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.
- Amddiffyn y cyhoedd.
- Cyfllawni gwaith effeithiol ar gyfer dioddefwyr.

Cefnogir ein canfyddiadau gan sylwadau, a dynnir o drafodaethau gydag uwch reolwyr ac o'n cyfweliadau gyda rheolwyr troseddwyr ynghylch sut y caiff eu harferion eu cefnogi a'u datblygu gan y sefydliad. Rydym hefyd wedi defnyddio holiaduron i gael barn dioddefwyr sydd mewn cyswllt â'r Ymddiriedolaethau Prawf, a chan ddedfrydwyr trwy gyfarfodydd a chyfweliadau. Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yn cynnal arolwg blynyddol o droseddwyr; rydym wedi defnyddio canlyniadau'r arolwg hwn i arwain ein arolygiad o bob ymddiriedolaeth. Rydym hefyd wedi cael gweld y pwyntiau dysgu cyffredinol o adolygiadau Troseddau Difrifol Pellach yn y cyfnod cyn yr arolygiad, ac yn ein arolygiadau achosion rydym wedi rhoi sylw i'r meysydd allweddol hyn. Yn ogystal, rydym wedi rhoi sylw i'r ffyrdd y mae ymddiriedolaethau wedi ymateb i'n adroddiadau thematig a'r ffordd y maent wedi gweithredu canfyddiadau.[1]

---

[1] Er enghraifft,
*Equal but Different: An inspection of the use of alternatives to custody for women offenders* [Hydref 2011],
*Putting the pieces together: an inspection of Multi-Agency Public Protection Arrangements* [Tachwedd 2011],
*Transitions: An inspection of the transitions arrangements from youth to adult services in the criminal justice system* [Hydref 2012]
*Victim Contact: An inspection of the victim contact arrangements in Probation Trusts* [Tachwedd 2013],
*A joint inspection of the treatment of offenders with learning disabilities within the criminal justice system – phase 1 from arrest to sentence* [Ionawr  2014]

**Canfyddiadau arolygiadau**
## 2.3

Ym mhob adroddiad arolygu rydym yn cyflwyno sgoriau cyffredinol ar gyfer y pum maes allweddol o ymarfer.

Dros y chwe arolygiad cyntaf (a oedd yn canolbwyntio ar waith gyda throseddwyr treisgar), canfuom fod:

- 81% o'r gwaith i gynorthwyo dedfrydu
- 80% o'r gwaith i gyflawni dedfryd y llys
- 73% o'r gwaith i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu
- 71% o'r gwaith i ddiogelu'r cyhoedd
- 77% o'r gwaith i gyflawni gwasanaeth effeithiol i ddioddefwyr

o ansawdd digonol.

Dangosir y prif sgoriau ar gyfer y ganran o'r gwaith y canfuom ei fod o ansawdd digonol ar gyfer pob un o'r arolygiadau unigol hyn yn y tabl isod, yn y drefn y cawsant eu gwneud.

| | Cynorthwyo dedfrydu | Cyflawni dedfryd y llys | Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu | Diogelu'r cyhoedd trwy leihau'r risg o niwed i eraill | Cyflawni gwaith effeithiol i ddioddefwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swydd Bedford** | 77% | 73% | 66% | 61% | 61% |
| **Glannau Mersi**[2] | 79% | 83% | 75% | 76% | 87% |
| **Dyfnaint a Chernyw** | 82% | 78% | 69% | 70% | 78% |
| **Hampshire** | 79% | 82% | 75% | 76% | 77% |
| **Northumbria** | 89% | 82% | 77% | 72% | 77% |
| **Swydd Northampton** | 78% | 79% | 73% | 68% | 74% |

Dros yr ail set o bum arolygiad (a oedd yn canolbwyntio ar waith i amddiffyn plant) canfuom fod:

- 86% o'r gwaith i gynorthwyo dedfrydu
- 76% o'r gwaith i gyflawni dedfryd y llys
- 66% o'r gwaith i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu
- 64% o'r gwaith i ddiogelu'r cyhoedd
- 67% o'r gwaith i gyflwyno gwasanaeth effeithiol i ddioddefwyr

o ansawdd digonol.

---

[2] Seiliedig ar dair o chwe Uned Gyflawni Lleol Glannau Mersi, sy'n gwasanaethu ardaloedd Knowsley, Gogledd Lerpwl a Sefton.

Dangosir y prif sgoriau ar gyfer y ganran o'r gwaith y canfuom ei fod o ansawdd digonol ar gyfer pob un o'r arolygiadau unigol hyn yn y tabl isod, yn y drefn y cawsant eu gwneud.

| | Cynorthwyo dedfrydu | Cyflawni dedfryd y llys | Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu | Diogelu'r cyhoedd trwy leihau'r risg o niwed i eraill | Cyflawni gwaith effeithiol i ddioddefwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| **Caerefrog a Gogledd Swydd Efrog** | 82% | 85% | 82% | 80% | 86% |
| **Norfolk a Suffolk** | 85% | 77% | 66% | 67% | 70% |
| **Caint** | 86% | 74% | 63% | 58% | 64% |
| **Durham Tees Valley** | 89% | 79% | 70% | 70% | 66% |
| **Llundain**[3] | 85% | 67% | 53% | 52% | 53% |
| **Cymru** | Cynhaliwyd yr arolygiad ym mis Mawrth 2014 ond ni chynhwysir y sgoriau yn y data yn yr adroddiad hwn. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ym mis Gorffennaf 2014. | | | | |

**Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau**
**2.4**

### Troseddwyr

Wrth ddatblygu'r rhaglen arolygu gwaith troseddau oedolion, cytunasom gyda NOMS, er mwyn osgoi dyblygu, mai'r arolwg o droseddwyr a gynhelir yn flynyddol fyddai'r sail ar gyfer ein hadborth troseddwyr. Fe wnaeth canlyniadau'r Ymddiriedolaethau Prawf lywio'n hymholiadau yn ystod yr arolygiad a chynhwysir sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau mewn adroddiadau unigol.

### Dioddefwyr

Anfonasom holiaduron at ddioddefwyr yn yr achosion a arolygasom, lle'r oedd y drosedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gwasanaeth prawf gysylltu â'r dioddefwyr. Dros yr 11 o arolygiadau a gwblhawyd, ymatebodd 99 o ddioddefwyr[4]. Roedd y mwyafrif yn gwbl fodlon neu'n fodlon i raddau helaeth gydag ymateb y gwasanaeth prawf. Roedd y mwyafrif o ddioddefwyr wedi cael y cyfle i siarad ynghylch unrhyw bryderon a oedd ganddynt ynghylch rhyddhau'r unigolyn, ac roedd 91% yn fodlon gyda threfniadau i'w diweddaru'n gyson â gwybodaeth ynghylch pwyntiau allweddol dedfryd y troseddwr. Lle'r oedd y troseddwr ar fin cael ei ryddhau, dywedodd 94% o ddioddefwyr fod amodau ychwanegol wedi eu hychwanegu at ei drwydded er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogelach. Lle adroddwyd pryderon i'r gwasanaeth prawf, cafwyd ymateb boddhaol mewn 88% o achosion.

Fe wnaeth y mwyafrif o sylwadau gan ddioddefwyr unigol fynegi eu diolch am y gwasanaeth a dderbyniasant, gyda nifer ohonynt yn talu teyrnged i aelodau unigol o

---

[3] Seiliedig ar y chwech o'r 23 Uned Gyflawni Lleol sy'n ffufio Ymddiriedolaeth Prawf Llundain. Mae'r unedau hyn yn gwasanaethu ardaloedd Barking, Dagenham a Havering, Hackney, Haringey, Newham, Redbridge a Waltham Forest, a Tower Hamlets.

[4] Ni anfonwyd holiaduron at ddioddefwyr yn Durham Tees Valley, trwy gytundeb gyda'r Ymddiriedolaeth Prawf

staff. Ymddengys fod nifer bach o sylwadau negyddol yn gysylltiedig â'r methiant gan yr Ymddiriedolaeth Prawf i gyfathrebu â'r dioddefwyr neu i gymryd camau y cytunwyd arnynt.

**Sylw gan ddioddefwr**

*"Roedd y Swyddog Cysylltu â Dioddefwyr yn dosturiol iawn ac yn gyfeillgar a llawn cydymdeimlad wrth drafod y drosedd, a'r gwasanaeth a oedd yn cael ei gynnig."*

**Sylw gan ddioddefwr**

*"Mae'r aelod o staff cysylltu â dioddefwyr wedi bod o gymorth gwirioneddol. Ni fyddwn wedi cael dealltwriaeth glir o'r ddedfryd na chyfle i'm pryderon gael eu clywed unwaith y bydd yn cael ei ryddhau. Mae wedi bod yn dda cael rhywun i gysylltu â nhw wrth i'r dyddiad rhyddhau ddynesu."*

**Sylw gan ddioddefwr**

*"Bu'n rhaid imi ffonio'r gwasanaeth prawf a gofyn am wybodaeth yr oedd arnaf ei eisiau a'i angen ... a dywedwyd wrthyf y byddwn yn cael fy hysbysu'n gyson o ddyddiadau etc. Ni ddigwyddodd hyn."*

**Aseswyr Lleol**

**2.5**

Cyn cyflawni arolygiad rydym fel arfer yn hyfforddi gr□p o staff prawf fel Aseswyr Lleol i weithio gyda ni yn ystod yr arolygiad yn eu hardal[5].

Mae eu hadborth i ni'n awgrymu eu bod yn ddieithriad yn cael hyn yn brofiad gwerthfawr a'u bod yn mynd â'r hyn a ddysgant yn ôl i'w gweithleoedd eu hunain. Rydym wedi annog Ymddiriedolaethau Prawf i ddefnyddio'r sgiliau a enillir gan yr aelodau hyn o'u staff yn eu gweithgaredd ôl-arolygiadau.

**Adborth gan reolwyr troseddwyr**

**2.6**

Ar ôl pob arolygiad achos gwahoddasom adborth gan y rheolwr troseddwyr yr oeddem wedi ei gyfweld. O'r 11 o arolygiadau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, dychwelwyd 228 o ffuflenni adborth. Roedd y mwyafrif yn gadarnhaol ynghylch y profiad arolygu. Nododd un:

---

[5] Gwnaethom hyn ym mhob Ymddiriedolaeth Prawf a arolygwyd eleni ac eithrio Durham Tees Valley

**Feedback from Offender Managers**




Nodyn – Yn sgil talgrynnu canrannau, nid yw pob cwestiwn yn adio i 100%.

Rydym hefyd wedi ceisio cipio rhywfaint o dystiolaeth ynghylch effaith yr arolygu ar arferion. Gofynasom i reolwyr troseddwyr ddweud wrthym am y gwaith yr oeddent wedi derbyn canmoliaeth amdano.

*"Gwybodaeth dda o'r achos. Dealltwriaeth ragorol o natur ddeinamig y risg o'r achos – cydbwyso'r bwriad clir i wneud niwed difrifol yn erbyn yr iechyd gwael a'r anallu meddygol ar hyn o bryd."*

*"Y ffordd yr ydw i wedi cyd-drafod â'r troseddwr a gwneud y penderfyniad i geisio amrywiaeth o ddewisiadau dedfrydu i ddiwallu ei hanghenion amrywiaeth a mynd i'r afael â'i materion lles".*

*"Perthynas dda gyda Staff Safleoedd Cymeradwy, perthynas gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch materion amddiffyn plant. Rheolaeth dda o risg trwy gyrffyw ac arwyddo".*

*"Diweddaru OASys (System Asesu Troseddwyr) yn rheolaidd, nodi cynnydd ynghylch cyflogaeth, cael llety. Glynu at amcanion cynllun y ddedfryd. Ymweliadau cartref."*

Gofynasom hefyd i reolwyr troseddwyr roi enghreifftiau inni o'r hyn y byddant efallai yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad i'r adborth a dderbyniasant.

*"Egluro, pan fo'n amlwg fod yr achos yn ymwneud â phlant, beth mae'r troseddwr yn ei ddweud ynghylch yr effaith ar unrhyw blant a thrafod gyda'r rheolwr llinell neu gydweithwyr a ydynt yn credu y dylwn gyfeirio'r achos at Wasanaethau Plant."*

*"Ystyried amseru adolygiadau OASys fel ffordd o atgyfnerthu cynnydd cadarnhaol a wnaed".*

*"Gydag unrhyw achosion yr wyf yn ymdrin â hwy sydd â phlant nad ydynt yn weithredol gyfrifol amdanynt, byddaf yn dal i wirio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a yw'r teulu'n hysbys. Byddaf yn cymryd mwy o ofal wrth ddogfennu pam yr wyf wedi gwneud penderfyniadau penodol".*

*"Cysylltu cynllun wrth gefn ag angen sy'n ysgogi troseddau, sef yn yr achos hwn yfed alcohol".*

Gofynasom hefyd i reolwyr troseddwyr a oedd unrhyw ffactorau a fyddai'n peri rhwystr iddynt newid eu harferion, neu barhau â'u harfer dda. Nid yw'n syndod fod llawer wedi gwneud sylwadau ar lwythi gwaith uchel, prinder staff yn sgil swyddi gwag a salwch, gweithdrefnau aneffeithlon a phroblemau TG. Fodd bynnag, nid oedd 66% yn gweld unrhyw rwystrau rhag newid eu harferion – cyfran debyg i'r hyn oedd mewn blynyddoedd blaenorol.

# Pennod 3

## Arolygu Gwaith Troseddau Oedolion mewn Carchardai

# Pennod 3

# Arolygu Gwaith Troseddau Oedolion mewn Carchardai

## Trosolwg

### 3.1

Rheoli troseddwyr yw'r term a ddefnyddir i ddynodi asesu, cynllunio a gweithredu gwaith gyda throseddwyr yn y gymuned neu yn y ddalfa i ymdrin â'r tebygolrwydd iddynt aildroseddu, a'r risg o niwed y maent yn ei beri i'r cyhoedd. Mae gan reolwyr troseddwyr yn y gymuned, a staff mewn Unedau Rheoli Troseddwyr mewn carchardai, gyfrifoldeb dros gyflawni a chydgysylltu gwaith gyda charcharorion i ymdrin â'r agweddau, ymddygiad a'r ffordd o fyw sydd wedi cyfrannu at eu troseddu.

Eleni rydym wedi ymuno ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar 25 o'u harolygiadau ac wedi asesu ansawdd y gwaith a wnaed gyda throseddwyr unigol mewn unedau rheoli troseddwyr, mewn cysylltiad â'r rheolwyr troseddwyr sy'n gyfrifol yn y gymuned. Mae ein canfyddiadau'n cyfrannu at adroddiad yr arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

## Arolygu Rheoli Troseddwyr mewn Carchardai
## Adroddiad Casgliadau Cyflawn 2012-2013

### 3.2

Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddasom, gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, ein trydydd adroddiad casgliadau cyflawn am ansawdd ac effeithiolrwydd rheoli troseddwyr sy'n garcharorion. Roedd hyn yn seiliedig ar y canfyddiadau o'n Cydarolygiadau Rheoli Troseddwyr mewn Carchardai mewn 21 o sefydliadau yn ystod 2012 a 2013.

Yn ein hadroddiad yn 2012, canfuom amrywiaeth eang yn rôl, pwysigrwydd ac effeithiolrwydd unedau rheoli troseddwyr mewn gwahanol sefydliadau; canfuom hefyd, er bod llawer o garchardai'n rhoi sylw da i anghenion 'ailsefydlu' carcharorion (hynny yw, eu hamgylchiadau personol a chymdeithasol), nad oeddent yn rhoi digon o sylw i'r swyddogaethau 'rheoli troseddwyr', sef adsefydlu'r carcharor a diogelu'r cyhoedd. Roedd ein hadroddiad, felly, yn cynnwys nifer o argymhellion a luniwyd i gefnogi'r gwaith, a oedd yn digwydd mewn sefydliadau carchar ar y pryd, i wneud yr unedau rheoli troseddwyr yn ganolbwynt y gweithgareddau i reoli'r ddedfryd.

Roeddem yn siomedig o ddarganfod mai ychydig o gynnydd ymarferol a wnaed i weithredu'r argymhellion o'n hadroddiad casgliadau cyflawn diwethaf ac nad yw canlyniadau i garcharorion, o safbwynt ailsefydlu nac adsefydlu, ddim gwell nag oeddent flwyddyn yn ôl. Roeddem yn neilltuol o bryderus oherwydd roedd y diffyg cynnydd yn taflu amheuon ynghylch gallu Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi i weithredu'r newidiadau sy'n ofynnol o dan *Gweddnewid Adsefydlu* a luniwyd i leihau cyfraddau aildroseddu, yn enwedig i garcharorion tymor byr.

O ganlyniad i'n canfyddiadau, dywedodd Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi a Phrif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi:

"*Rydym wedi dod yn anfoddog i'r casgliad nad yw'r Model Rheoli Troseddwyr, waeth pa mor ganmoladwy ei ddyheadau, yn gweithio mewn carchardai. Nid yw'r mwyafrif o staff carchardai yn ei ddeall, ac nid yw rheolwyr troseddwyr yn y gymuned, sydd yn ei ddeall i raddau helaeth, yn cymryd rhan yn y broses ac nid oes ganddynt yr wybodaeth fewnol o'r sefydliadau chwaith, i wneud iddo weithio. Mae'n fwy cymhleth na'r hyn y mae llawer o*

*garcharorion ei angen ac yn fwy costus i'w redeg na'r hyn y gall y mwyafrif o garchardai ei fforddio. Yn wyneb cynhwysedd presennol y Gwasanaeth Carchardai a'r pwysau sy'n awr yn ei wynebu yn sgil gweithredu Gweddnewid Adsefydlu ac ymestyn gwasanaethau 'Trwy'r Porth', mae'n amheus gennym a all gyrraedd disgwyliadau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn y dyfodol. Credwn nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy mwyach ac y dylai fod yn destun adolygiad sylfaenol ac y dylid symud y gwaith hwn ymlaen fel rhan o'r strategaeth o weithredu Gweddnewid Adsefydlu.*
*Yn y cyfamser, mae ein hadroddiad yn cynnwys rhai argymhellion a fyddai, pe caent eu gweithredu, yn gwella'r sefyllfa hyd nes y gellir gwneud newidiadau mwy pellgyrhaeddol."*

**Argymhellion o'r adroddiad**

**Prif argymhelliad:**

- Gan y bydd y trefniadau presennol ar gyfer rheoli troseddwyr mewn carchardai'n dod yn fwyfwy heriol wrth weithredu disgwyliadau *Gweddnewid Adsefydlu,* dylid cynnal adolygiad polisi sylweddol gan Brif Weithredwr NOMS, a fydd yn arolygu'r ffordd y gweithredir y Model Rheoli Troseddwyr mewn carchardai, er mwyn sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng gofynion y model a'r adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael mewn carchardai i'w gyflawni.

Yn y cyfamser, tra bydd ein prif argymhelliad yn cael ei weithredu, mae nifer o faterion gweithredol yn gofyn am sylw ar unwaith.

**Argymellasom fod NOMS yn:**

- cynhyrchu canllawiau arferion i oruchwylwyr troseddwyr mewn sefydliadau carchar i gefnogi datblygiad cyson eu rôl
- sicrhau bod carcharorion sy'n ddinasyddion tramor yn destun rheoli troseddwyr er mwyn ymdrin â'u risg o niwed a'u tebygolrwydd o aildroseddu.

**Argymellasom ymhellach fod NOMS yn gweithio gyda sefydliadau carchar a darparwyr gwasanaethau rheoli troseddwyr i sicrhau bod:**

- unedau rheoli troseddwyr ac adrannau eraill, gan gynnwys Addysg, yn defnyddio P-NOMIS fel eu cyfnod canolog, dyddiol o gyswllt gyda charcharorion ac ynghylch carcharorion
- dadansoddiad cyfoes o anghenion carcharorion i fynd i'r afael â'r risg o aildroseddu (seiliedig ar ddata'r System Rheoli Troseddwyr)
- carcharorion yn gallu cael at amrywiaeth ddigonol o raglenni i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddgar ac anghenion eraill cysylltiedig
- anghenion ailsefydlu carcharorion yn cael eu rheoli fel rhan o ddull cydgysylltiedig o reoli troseddwyr o'u derbyn at eu rhyddhau
- pob rheolwr troseddwyr, staff carchardai a staff y gwasanaeth prawf, yn derbyn yr un lefel ac ansawdd o oruchwyliaeth o'u gwaith
- staff o holl adrannau perthnasol carchardai yn rhoi blaenoriaeth i fod yn bresennol mewn byrddau cynllunio dedfrydau, neu'n gwneud cyfraniadau ysgrifenedig yn enwedig ynglŷn â materion risg o niwed
- cynlluniau rheoli risg yn rhoi sylw i sefyllfa bresennol y carcharor yn ogystal â'r dyfodol.

**Rhai o'n canfyddiadau allweddol**

- Roedd bron i hanner y carchardai yr ymwelasom â hwy heb ddadansoddiad cyfoes o anghenion carcharorion i wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn ymyraethau ar eu sail. Anaml y defnyddid data'r System Asesu Troseddwyr.
- Roedd diffyg arweiniad yn dal i fod ynghylch y defnydd o P-NOMIS. Roedd gwybodaeth bwysig am garcharorion yn cael ei gadw mewn amrywiol leoedd ac nid oedd yn cael ei gyfleu'n effeithiol.
- Roedd goruchwylwyr troseddwyr sy'n swyddogion carchardai'n ymroddedig i'w gwaith ac yn dweud eu bod wedi eu hyfforddi'n well nag o'r blaen. Fodd bynnag, roeddent yn dal heb dderbyn canllawiau digonol ynghylch eu rôl a'r cysylltiad rhwng hynny a rôl swyddog yr adain. Nid oedd cyswllt wedi'i gynllunio gyda charcharorion yn cael ei weld fel blaenoriaeth.
- Roedd dull dwy haen o reoli a goruchwylio goruchwylwyr troseddwyr a oedd yn methu â chynorthwyo'r mwyafrif o swyddogion carchardai i wella'u perfformiad.
- Roedd trefniadau diogelu'r cyhoedd yn gyffredinol dda ac wedi integreiddio'n amlach i mewn i waith yr uned rheoli troseddwyr nag o'r blaen. Roedd y cymorth ar gyfer rheoli achosion Trefniadau Amlasiantaethol Amddiffyn y Cyhoedd yn effeithiol.
- Roedd y ddarpariaeth o raglenni achrededig yn parhau i fod yn annigonol i ddiwallu'r angen ac ymddangosai fel petai'n lleihau. O ganlyniad, nid oedd carcharorion a oedd eu hangen yn gallu symud ymlaen. Roedd dewisiadau eraill anachrededig yn cael eu defnyddio fwyfwy heb unrhyw dystiolaeth o'u heffeithiolrwydd.

## *Gweddnewid Adsefydlu* – datblygu rhaglen arolygu ddiwygiedig i asesu Rheoli Troseddwyr mewn Carchardai a'r canlyniadau a gyflawnir gan garcharorion ailsefydlu tymor byr.

### 3.3

Mae NOMS wedi derbyn y prif themâu a'r casgliadau o'r adroddiad casgliadau cyflawn ac yn cydnabod y bydd y diwygiadau *Gweddnewid Adsefydlu* yn ei gwneud yn ofynnol iddynt adolygu'r model rheoli troseddwyr i ymdrin â'r materion a'r argymhellion yr ydym wedi eu gwneud. Mae Prif Weithredwr NOMS hefyd yn cytuno gyda'n casgliad bod angen ailasesiad sylfaenol o reoli troseddwyr mewn carchardai ac maent yn dechrau gwneud y gwaith hwn.

Bydd *Gweddnewid Adsefydlu,* wrth gwrs, yn newid yn sylfaenol y model sy'n gweithredu yn y gymuned ac yn ehangu cymorth goruchwylio cymunedol i'r rheini sy'n cyflawni dedfrydau byr o garchar. Bydd hyn, yn ei dro, yn gofyn am ddull gwahanol o arolygu.

Mae'r newidiadau sy'n dod i rym o dan *Gweddnewid Adsefydlu* yn amlygu pwysigrwydd gwaith i baratoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau, o safbwynt eu hailsefydlu a newid eu hagweddau at droseddu. Adlewyrchir y newidiadau hyn yn ein methodoleg ac yn y cynnydd mewn adnoddau a ddyrennir i'r gweithgaredd arolygu hwn.

## Gwaith arall gyda NOMS a Charchardai

### 3.4

Yn ystod 2013-2014, ar y cyd â NOMS, cynaliasom wyth o weithdai sicrhau ansawdd

rheoli troseddwyr, a luniwyd ar gyfer rheolwyr llinell gyntaf unedau rheoli troseddwyr mewn carchardai fel y gallent ddeall eu tasg yn well a phenderfynu beth yw rheolaeth dda o droseddwyr. Roedd y presenoldeb yn rhagorol gyda thua 70 o staff, a'r rheini'n bennaf yn rheolwyr sy'n gyfrifol am ailsefydlu ac unedau rheoli troseddwyr, yn cymryd rhan. Ym mhob gweithdy, cafodd achos carcharor ei drafod mewn dyfnder, a gwnaed dyfarniadau ynghylch ansawdd yr arfer gan ddefnyddio meincnod a osodwyd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Rhoddodd hyn gyfle i staff o wahanol garchardai ddod at ei gilydd i drafod a rhannu eu harferion. Fel gyda digwyddiadau blaenorol, rhoddodd cyfranogwyr adborth cadarnhaol iawn ynghylch gwerth yr hyfforddiant hwn.

**Sylw adborth**

"*Credaf fod y cyfan yn ddefnyddiol. Fe wnaeth imi feddwl am staff yn cofnodi gwybodaeth. Mae angen gwell defnydd o nodiadau achos P-NOMIS a chyfiawnhau penderfyniadau gan aseswyr OASys. Mae angen mwy o gefnogaeth i Oruchwylwyr Troseddwyr o ran goruchwylwyr yn rhoi adborth. Bydd Canllawiau Asesu Achosion yn ddefnyddiol ar gyfer gwiriadau ansawdd.*"

**Sylw adborth**

"*Fel rhywun sy'n newydd iawn i'r byd unedau rheoli troseddwyr, roedd yn ffordd wych o wybod mwy am arolygiad rheoli troseddwyr carchar. Cefais ddysgu am OASys a beth i chwilio amdano wrth wneud gwaith sicrwydd ansawdd. Ac fel sgil-effaith roedd yn wych rhwydweithio gyda staff unedau rheoli troseddwyr eraill.*"

**Sylw adborth**

"*Rheolwyr rhagorol, roedd y defnydd o daflenni a chyd-aelodau ar y cwrs yn ei wneud yn weithdy difyr. Deuthum oddi yno gyda chyfeiriad clir o ran beth yw rheolaeth dda o droseddwyr.*"

# Pennod 4

## Arolygu Gwaith Troseddau Ieuenctid

# Pennod 4
# Arolygu Gwaith Troseddau Ieuenctid

### Trosolwg

**4.1**
Hon oedd yr ail flwyddyn o arolygu cymesur â risg gwaith y Timau Troseddau Ieuenctid (YOT). Mae'r rhaglen yn cynnwys dwy brif elfen arolygu perfformiad – y Cydarolygiad Llawn, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y Timau Troseddau Ieuenctid hynny nad ydynt yn perfformio cystal, a Sgrinio Ansawdd Byr (SQS). Gall pob Tîm Troseddau Ieuenctid ddisgwyl o leiaf un Cydarolygiad Llawn neu Sgrinio Ansawdd Byr, neu gael eu cynnwys mewn arolygiad thematig mewn cyfnod o bum mlynedd.

Er bod gan y Cydarolygiad Llawn adran ychwanegol ar lywodraethu ac arwain, mae'r Cydarolygiadau Llawn a'r Sgrinio Ansawdd Byr yn canolbwyntio'n bennaf ar y dull o weithio, yn enwedig pa mor dda y gwneir y gwaith i'w gwneud hi'n llai tebygol y bydd plentyn neu berson ifanc yn troseddu yn y dyfodol. Caiff pob achos ei drafod yn fanwl gyda'r rheolwr achos (y person sy'n cydgysylltu'r gwaith gyda'r plentyn neu berson ifanc) a chesglir yr wybodaeth honno i roi data meintiol inni ar gyfer sampl o achosion. Mae'r nifer o achosion yn y sampl yn amrywio gan ddibynnu ar faint y Tîm Troseddau Ieuenctid, ond y canlyniad yw gwybodaeth ar draws pedair thema:

- Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.
- Diogelu'r cyhoedd.
- Diogelu'r plentyn neu berson ifanc.
- Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni.

### Banc Gwybodaeth

**4.2**
Fel yr awgryma'r teitl, casgliad yw'r Banc Gwybodaeth o ddata a gwybodaeth sy'n ein helpu ni i benderfynu lle i arolygu, gan mai arolygiadau 'cymesur â risg' yw Cydarolygiadau Llawn. Y man cychwyn ar gyfer y penderfyniadau hyn yw Dangosyddion Cenedlaethol Canlyniadau Cyfiawnder Ieuenctid:

- Rhai a ddedfrydir am y tro cyntaf.
- Cyfraddau aildroseddu.
- Cyfraddau yn y ddalfa.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn rhoi data inni'n chwarterol. Mantais yr wybodaeth hon yw ei bod yn cynnwys yr holl Dimau Troseddau Ieuenctid. Rydym hefyd yn ystyried unrhyw ddata arolygu blaenorol – er enghraifft, o'n Arolygiadau Achosion Craidd (2009-2012) ac, wrth inni eu gwneud, canlyniadau'r Sgrinio Ansawdd Byr. Er mwyn cwblhau ein darlun, gwahoddwn wybodaeth gan arolygiaethau eraill. Unwaith yr ydym wedi penderfynu lle gallem fod yn arolygu, cydgysylltir amseriad yr arolygiad hwnnw gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (er mwyn, er enghraifft, osgoi lle gallent fod wrthi'n cyflawni gwaith eu hunain), gydag arolygiaethau eraill a lle bo modd, pan y gall Tîm Troseddau Ieuenctid fod yn mynd trwy ad-drefnu sylweddol, er enghraifft system dechnoleg gwybodaeth newydd.

Trafodir yr holl faterion hyn mewn cyfarfod Banc Gwybodaeth chwarterol, cyfarfod y gwahoddir pob arolygiaeth berthnasol yng Nghymru a Lloegr iddo a/neu ddarparu gwybodaeth ar ei gyfer.


**Sgrinio Ansawdd Byr**

**4.3**
Mae’r arolygiadau hyn yn cael eu gwneud i bob Tîm Troseddau Ieuenctid, waeth beth fo’u perfformiad, ac maent yn cynnwys tîm bach o arolygwyr yn ymweld â’r tîm am ddau ddiwrnod a hanner. Rydym yn arolygu’r ychydig wythnosau cyntaf o orchmynion newydd, sy’n rhoi darlun gwerthfawr inni o’r gwaith cychwynnol a wneir gyda phlentyn neu berson ifanc ar draws y pedair thema. Yn ein profiad ni, mae’r ychydig wythnosau cyntaf o gyswllt yn debygol o gael effaith ar y tebygolrwydd i’r plentyn neu berson ifanc hwnnw aildroseddu ac felly maent yn dyngedfennol er mwyn atal troseddu.

Rydym yn cynhyrchu llythyr byr a phwrpasol yn amlinellu’r canfyddiadau am bob arolygiad, sy’n adnabod y cryfderau allweddol a lle mae angen gwella er mwyn helpu’r Tîm Troseddau Ieuenctid i weld lle mae angen iddynt ganolbwyntio’u blaenoriaethau yn y dyfodol. Cyhoeddir copïau o’r llythyrau hyn ar ein gwefan ac fe’u hanfonir at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a’n harolygiaethau partner.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2014, roeddem wedi cwblhau 30 o arolygiadau Sgrinio Ansawdd Byr. Roedd cyfanswm yr achosion a arolygwyd yn 2013-2014 yn 694.

**Nodweddion amrywiaeth achosion a arolygwyd**




Er mwyn cael mwy o fanylion ynghylch Plant sy’n Derbyn Gofal, rydym yn awr yn gofyn cwestiynau ychwanegol er mwyn darganfod lle lleolir y plentyn neu berson ifanc yn ystod eu dedfryd. Canfuom fod 65% yn byw yn eu hardal awdurdod lleol/Tîm Troseddau Ieuenctid (ardal eu cartref) drwy gydol eu dedfryd, fod 26% y tu allan i’w hardal awdurdod lleol am y cyfan neu ran o’u dedfryd, a bod 10% o Dimau Troseddau Ieuenctid yn lletya plant a phobl ifanc yn dod i mewn i’w hardal. Byddwn yn gwylio ac yn dadansoddi’r wybodaeth hon yn fanylach dros y flwyddyn nesaf, er mwyn darganfod a oes patrwm cyffredinol.

Roeddem yn falch o weld fod y plant a’r bobl ifanc hynny yng Nghymru yr oedd yn well ganddynt siarad Cymraeg yn cael cyfle i gael rheolwr achos sy’n siarad Cymraeg.

O’r achosion a arolygwyd gennym, roedd y plant a’r bobl ifanc hynny a oedd yn destun gorchmynion atgyfeirio yn ffurfio ychydig dros un o bob pump (21%), gorchmynion adsefydlu ieuenctid 55% a dedfrydau yn y ddalfa 23%.

Roedd y dedfrydau hyn yn cael eu gorfodi am amrywiaeth o droseddau, gyda thrais yn erbyn y person yn bennaf ar 39%, a bwrgleriaeth (12%), lladrad (12%) a lladrata a thrafod nwyddau wedi’u lladrata (12%) yn cyfrif am y prif gollfarnau eraill.

**Enghraifft o achos**

Roedd y rheolwr achos wedi bod yn ei chael hi’n anodd ennyn cydweithrediad Ben. Penderfynodd felly gynnal y cyfarfod cynllunio cychwynnol fel sesiwn pobi. Roedd Ben wedi ymlacio ac yn cymryd rhan lawn yn y gweithgaredd, gan siarad yn agored gyda’r rheolwr achos wrth fwynhau’r dasg ymarferol. Yn ogystal â helpu’r rheolwr achos i gywain gwybodaeth ddigonol i gwblhau’r cynllun ymyrryd, roedd y dull creadigol hwn hefyd yn cyfrannu’n sylweddol at sefydlu perthynas waith agored ac ystyrlon rhwng y ddau. Codwyd hunan-barch Ben hefyd trwy allu mynd â’r cacennau adref i’w deulu.

**Canfyddiadau allweddol – Sgrinio Ansawdd Byr**

**Adroddiadau cyn dedfrydu**

Roeddem yn falch o weld cyfran uchel o adroddiadau ysgrifenedig o ansawdd da yn cael eu cyflwyno i’r llysoedd. O’r rheini nad oedd yn ddigon da, y materion lle’r oedd angen gwella oedd, fel o’r blaen, dadansoddi ymddygiad troseddol, gwell asesiadau o risg a niwed i eraill, a gwell asesiadau o’r graddau yr oedd plant a phobl ifanc yn agored i niwed. Roedd hyn yn cael ei ailadrodd yn yr adroddiadau a baratowyd ar gyfer paneli sy’n ymdrin â gorchmynion atgyfeirio.

Canfuom fod y mwyafrif o blant a phobl ifanc a’u rheini/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o baratoi adroddiadau cyn dedfrydu.

**Asesiadau**

Gyda thri chwarter neu fwy o’r asesiadau yn ddigon da, byddai gwella’u hansawdd cyffredinol a chynnwys ymddygiad perthnasol arall yn galluogi mwy fyth i gael eu hasesu fel rhai digonol.

**Cynllunio**

Mae cynhyrchu cynllun, yn dilyn asesiad cynhwysfawr, yn gymorth ar gyfer gorchymyn a chydgysylltu cyflwyno ymyraethau. Unwaith y caiff ei gytuno gyda’r plentyn neu berson ifanc a’u rhieni/gofalwyr, a’i ffurfio gyda gweithwyr proffesiynol eraill perthnasol, gall helpu pawb sydd â rhan ynddo i weld sut y gellir sicrhau llwybr allan o droseddu. Dylai fod yn ddogfen fyw, y cyfeirir ati’n aml a’i haddasu i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau. Er bod tua thri chwarter y cynlluniau yr edrychasom arnynt wedi eu cwblhau’n dda, roedd nifer o fylchau sylweddol. Roedd rhai nad oeddent yn canolbwyntio digon ar leihau’r tebygolrwydd o aildroseddu, ac nid oedd yr amcanion yn glir (CAMPUS – Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol), roedd eraill nad oeddent wedi eu cwblhau o gwbl. Mewn risg o niwed i eraill a bod yn agored i niwed, nid oedd y cynlluniau wrth gefn yn ddigonol ac mewn rhai achosion, ni roddwyd digon o sylw i faterion dioddefwyr.

**Adolygiadau**

Gan fod bywydau plant a phobl ifanc yn newid yn gyflym, mae’n bwysig adolygu’r asesiadau a’r cynlluniau ar ôl cyfnod rhesymol o amser, ond hefyd os oes unrhyw newid arwyddocaol wedi bod mewn amgylchiadau. Gallai hyn fod yn droseddu pellach, anghydfod gyda rhieni/gofalwyr, newidiadau mewn llety, addysg, hyfforddiant neu

gyflogaeth neu farwolaeth neu absenoldeb rhywun agos. Mae'n cynnwys unrhyw beth a all effeithio ar sut mae'r plentyn neu berson ifanc hwnnw'n teimlo neu'n ymddwyn o ran y gwaith sydd angen ei wneud i helpu eu rhwystro rhag aildroseddu. Er bod bron i dri chwarter yr adolygiadau wedi cael eu gwneud i ansawdd digonol, roedd rhai na chafodd eu gwneud, roedd eraill nad oeddent yn cydnabod newid sylweddol ac roedd eraill wedi cael eu copïo o fersiwn flaenorol ond heb eu diweddaru.


**Rheolaeth a goruchwyliaeth**

Disgwyliwn i reolwyr wybod sut mae eu staff yn perfformio. Disgwyliwn y byddant yn samplo'r gwaith ac yn rhoi goruchwyliaeth benodol lle mae unigolion sy'n risg i'r cyhoedd neu sy'n agored i niwed. Rydym yn falch o weld rheolwyr llinell yn chwarae mwy o ran ymarferol, ond yn anffodus nid yw hyn yn effeithiol bob amser gan nad yw'r materion a nodwyd fel rhai angen eu gwella yn cael eu gwella bob amser. Yn ein barn ni, mae dros draean o'r gwaith hwn heb fod yn cael ei wneud yn ddigon da.

**Cynnwys plant a phobl ifanc**

Mae'n arolygiadau'n dal i ddangos plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn parhau i gael eu cynnwys yn helaeth yng ngwaith y Tîm Troseddau Ieuenctid. Mae camau sylweddol wedi cael eu gwneud wrth ddefnyddio arbenigwyr Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu sydd hefyd yn gallu cynorthwyo rheolwyr achosion cyffredinol i ddeall y materion, ond mae hwn yn dal i fod yn faes sy'n cael ei ddatblygu, yn enwedig o safbwynt adnabod anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu fel rhwystr i ennyn diddordeb a gwneud yr addasiadau sydd eu hangen o ganlyniad.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion o sgoriau cyffredinol perfformiad y 30 Tîm Troseddau Ieuenctid lle bu Sgrinio Ansawdd Byr eleni. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y sgôr isaf a'r sgôr uchaf, ond rydym wedi gweld gwelliannau yn y sgoriau is sydd yn ei dro wedi codi'r cyfartaledd.



**Adborth ar arolygiad**

"*Rydym yn falch fod yr arolygwyr wedi cydnabod y cynnydd y mae'r gwasanaeth wedi'i wneud yn ansawdd yr ymarfer ers ein arolygiad diwethaf, yn enwedig gan fod hyn wedi cael ei gyflawni yn erbyn cefndir o leihad mewn adnoddau. Rydym yn arbennig o falch eich bod wedi darganfod bod gan reolwyr achos, yn gyffredinol, ddealltwriaeth dda o'r hyn a oedd yn debygol o fod yn effeithiol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc i'w helpu hwy i roi'r gorau i droseddu a gwella ansawdd eu bywydau.*

*Rydym yr un mor ymwybodol o'r diffygion a adroddwyd a'r meysydd sy'n gofyn am wella pellach. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r arolygiad i wella'n gwasanaethau a hoffwn fynegi ein diolch am helpu i wneud y broses arolygu'n gyfle i ddysgu."*

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

**Gweithredu yn sgil arolygiad**

Fe wnaeth arolygiad Sgrinio Ansawdd Byr ddarganfod gwybodaeth am broblemau mewn sefydliad addysg lleol. Roedd hyn o bryder i'r Tîm Troseddau Ieuenctid gan fod nifer o blant a phobl ifanc naill ai'n cael eu troseddoli am y tro cyntaf neu'n cael eu hailgollfarnu o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn. Er bod hyn yn dechnegol y tu allan i feini prawf yr arolygiad, trefnasom gyfarfod gyda Chadeirydd y Bwrdd Rheoli, Cadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant i godi'r pryderon. Cymerodd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant y cyfrifoldeb am ymchwiliad lefel uchel a darganfu ymddygiad a oedd yn peri pryder, a gwnaeth lawer o argymhellion ynghylch sut i wella gwaith, yn enwedig rhwng y sefydliad a'r Gwasanaethau Plant a'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Rydym yn falch fod ein pryderon wedi cael eu cymryd o ddifrif a bod gweithredu cadarnhaol wedi deillio o'n hymweliad.

**Cydarolygiadau Llawn**

**4.4**
Mae'r rhaglen amlarolygiaethol hon yn archwilio sut mae'r rheini sy'n goruchwylio plant a phobl ifanc yn eu helpu hwy i roi'r gorau i droseddu. Cynhelir pob Cydrarolygiad Llawn dros gyfnod o ddwy wythnos, gydag wythnos rhyngddynt. Yn ystod yr wythnos gyntaf, mae staff Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n asesu sampl o achosion, gyda rheolwyr achosion lle maent ar gael. Caiff y canfyddiadau eu casglu wedyn a'u harchwilio mewn mwy o fanylder yn ystod yr ail wythnos gan bawb o'r arolygwyr sy'n cymryd rhan: Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Ofsted (gofal cymdeithasol ac addysg bellach a sgiliau), y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) yn Lloegr; ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yng Nghymru.

Eleni, ymgorfforasom y modiwl llywodraethu fel rhan o'r prif arolygiad, a defnyddiasom y modiwl ymyraethau ar gyfer rhai ardaloedd lle'r oedd eu data cenedlaethol aildroseddu yn achosi pryder. O'r chwe arolygiad, roedd un ar Dîm Troseddau Ieuenctid sy'n perfformio'n dda (Peterborough), ac un yng Nghymru (Wrecsam). Roedd arolygiad Wrecsam o ddiddordeb neilltuol gan inni fod wedi mynd yno'n bennaf o ganlyniad i'w perfformiad gwael, yn y set ddata genedlaethol, wrth leihau aildroseddu. Fodd bynnag, canfuom fod Wrecsam wedi gwneud dadansoddiad sylweddol o'u data troseddol, gan gydweithio â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac wedi gweithio'n galed i wella'r gwaith hwn – roedd hyn yn amlwg yng nghanfyddiadau ein harolygiad. Roedd ein canfyddiadau yn Peterborough yn cadarnhau'r data cenedlaethol, sef eu bod yn Dîm Troseddau Ieuenctid sy'n perfformio'n dda. Cynaliasaom Gydarolygiadau Llawn hefyd yn Croydon, Rochdale, Portsmouth ac Islington.

Gan fod y rhain yn arolygiadau wedi eu targedu, nid yw'n bosibl cyflwyno'r data fel data cyffredinol ar draws y Timau Troseddau Ieuenctid a arolygwyd, gan nad yw'r rhain o angenrheidrwydd yn nodweddiadol o bob Tîm Troseddau Ieuenctid. Fodd bynnag, gallwn ddangos ychydig o themâu allweddol i ddarlunio rhai o'r problemau a ganfuom, ac i alluogi Timau Troseddau Ieuenctid eraill i osod meincnodau ar gyfer gwella'r agweddau hyn o'u ffordd o weithredu.

**Canfyddiadau allweddol – Cydarolygiadau llawn**

Roedd llawer o'r themâu yn debyg i'r rheini a nodwyd eisoes yng nghanfyddiadau'r Sgrinio Ansawdd Byr yn gynharach yn yr adran hon. Gan fod Cydarolygiadau Llawn yn edrych ar waith dros gyfnod hirach o amser, rydym wedi tynnu sylw at feysydd sy'n ymwneud â chanlyniadau a rheoli arferion.

**Canlyniadau cychwynnol**

O ran achosion unigol, mae arolygwyr yn barnu a fu lleihad yn amlder aildroseddu ac yn nifrifoldeb troseddu ers cychwyn y ddedfryd/rhyddau o'r ddalfa. O safbwynt amlder, fe wnaethom farnu bod y Timau Troseddau Ieuenctid a oedd yn perfformio'n dda yn cyflawni 56% o leihad mewn amlder, o gymharu â 33% o leihad yn y rheini a oedd yn perfformio salaf. O safbwynt difrifoldeb y canrannau cyfatebol oedd 62% o gymharu â 37%.

Roedd canlyniadau iechyd a lles yn gryfder ar y cyfan, fel yr oedd adnabod ffactorau amrywiaeth a rhoi sylw iddynt, a chynnwys plant a phobl ifanc wrth gyflawni gofynion y ddedfryd. Roedd ansawdd y cydymffurfio (yn llawn neu ar ôl anawsterau cychwynnol) gan blant a phobl ifanc yn amrywio o 45% i 75%. O ran agweddau eraill o ymarfer (risg o niwed i eraill, gan gynnwys dioddefwyr adnabyddadwy, cadw'r plentyn neu berson ifanc yn ddiogel rhag eu hunain neu eraill), a rhoi sylw digonol i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn gynaliadwy, roedd gwahaniaethau tebyg yn yr amrediad perfformiad er bod y rhain yn fwy amlwg. Y ffactor cyffredin a oedd yn gysylltiedig â'r rhain oedd rheoli goruchwyliaeth. Nid oedd yn syndod fod y rheini â rheolaeth effeithiol ar oruchwyliaeth yn tueddu i berfformio'n well ar bob un o'r mesurau hyn.

**Rheoli ymarfer**

Gydag eithriad un o fwrdeistrefi Llundain, fe wnaethom farnu bod adnoddau digonol ar gael i'r rheolwr achos i ymdrin â lleihau troseddu, rheoli'r risg o niwed ac ymdrin ag anghenion diogelu yn y mwyafrif llethol o achosion. Yn y Tîm Troseddau Ieuenctid a oedd yn perfformio orau, gwelsom dystiolaeth fod goruchwyliaeth staff a threfniadau sicrhau ansawdd eraill wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i achosion. Roeddem yn falch o weld bod, ym mron pob un Tîm Troseddau Ieuenctid, staff yn deall egwyddorion arferion effeithiol a'u polisïau a gweithdrefnau lleol. Yn y Timau Troseddau Ieuenctid a oedd yn perfformio'n well na'i gilydd, roedd y rheolwyr achos o'r farn bod eu hanghenion hyfforddi a datblygu sgiliau'n cael eu diwallu a bod diwylliant y sefydliad yn mynd ati o ddifrif i hyrwyddo dysgu a datblygu.

**Enghraifft o arfer**

Roedd gan Jake anawsterau cyfathrebu sylweddol. Roedd yn ei chael hi'n anodd deall beth oedd yn digwydd yn y llys ac oblygiadau'r hyn yr oedd wedi'i wneud. Ychwanegwyd asesiad lleferydd ac iaith at yr Adroddiad Cyn Dedfrydu, a oedd yn esbonio'i anawsterau, oblygiadau gwahanol ddewisiadau dedfrydu, ac yn rhoi cyngor i'r llys dedfrydu ar sut i gyd-drafod yn effeithiol ag ef. Cafodd yr adroddiad hwn ei werthfawrogi gan y llys ac roedd yn ddylanwadol wrth lywio'r canlyniad.

**Sgoriau cyffredinol ar gyfer Cydarolygiadau Llawn yn 2013-14**

| Thema | Croydon | Rochdale | Wrecsam | Portsmouth | Peterborough | Islington |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu | 55% ** | 65% *** | 73% *** | 38% * | 72% *** | 35% * |
| Diogelu'r cyhoedd | 49% * | 65% *** | 71% *** | 43% * | 78% *** | 34% * |
| Diogelu'r plentyn neu berson ifanc | 55% ** | 66% *** | 78% *** | 55% ** | 82% **** | 44% * |
| Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni | 73% *** | 69% *** | 83% **** | 67% *** | 89% **** | 70% *** |
| Llywodraethu | ** | ** | ** | * | *** | * |

**** da
*** boddhaol
** anfoddhaol
* gwael

Noder: Cafodd y disgrifyddion uchod eu newid yn 2013 i gydnabod na ellid disgrifio gwaith fel 'da' os nad oedd ond dau draean yn ddigonol.

Mae adroddiadau Cydarolygiadau Llawn yn cynnwys argymhellion clir ar gyfer gwella ac fe'u cyflwynir mewn fformat electronig, gyda'r prif ganfyddiadau ar gael hefyd fel poster i'w arddangos mewn swyddfeydd er budd defnyddwyr gwasanaethau a staff. Caiff cyflwyniadau ar adroddiadau Cydarolygiadau Llawn eu hanfon at Weinidogion ac rydym yn cyhoeddi hysbysiadau i'r wasg. Unwaith y cânt eu cyhoeddi, mae rheolwr y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyflwyno cynllun gwella sydd, unwaith y cytunir arno, yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gydag adroddiadau ysbeidiol yn ôl at Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Gyda rhaglenni Cydarolygiadau Llawn a Sgrinio Ansawdd Byr, rydym yn casglu data ac yn gwirio ar gyfer unrhyw wahaniaethau sylweddol seiliedig ar nodweddion amrywiaeth. Nid oes gennym, hyd yma, unrhyw dystiolaeth fod gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng yr amrywiol grwpiau.

## Aseswyr lleol


**4.5**
Ar y mwyafrif o arolygiadau Sgrinio Ansawdd Byr, a phob Cydarolygiad Llawn, mae aelodau profiadol o Dimau Troseddau Ieuenctid yn ymuno â ni ac yn gweithio gyda ni fel rhan o'n timau arolygu. Rydym wedi bod yn falch iawn gyda'r nifer o Dimau Troseddau Ieuenctid sydd wedi bod yn fodlon 'benthyg' eu staff inni, gan fod hyn, yn ogystal â chynorthwyo'n proses arolygu, yn golygu bod sefydliadau'n cael aelod o staff sy'n deall

ein prosesau meincnodi ac sy'n gallu mynd â'r hyn a ddysgant yn ôl i'w gwaith. Rydym yn darparu dau ddiwrnod a hanner o hyfforddiant gyda mewnbwn adnewyddu yn nes at amser yr arolygiad. Caiff adborth o Dimau Troseddau Ieuenctid a arolygir ei ddarparu i Aseswyr Lleol lle mae rheolwyr achosion yn cwblhau'r ffurflen adborth. Hoffem ddiolch i'r holl Dimau Troseddau Ieuenctid sydd wedi rhyddhau eu staff i gyflawni'r gweithgaredd hwn eleni.

## Adborth o arolygiadau

**4.6**
Rydym yn gofyn i Dimau Troseddwyr Ieuenctid roi adborth inni mewn dwy ffordd. Y gyntaf yw yn unigol gan reolwyr achosion, lle rhoddir ffurflen electronig iddynt yn fuan ar ôl eu cyfweliad. Rhoddir yr ail fath o adborth gan Gadeirydd y Bwrdd Rheoli neu Reolwr y Tîm Troseddwyr Ieuenctid yngl□n â'r holl broses arolygu.

## Adborth gan reolwyr achosion




Nodwch nad yw pob cwestiwn yn adio i 100% oherwydd talgrynnu canrannau. Mae'r siart hwn yn seiliedig ar ddata o 338 o arolygon adborth a ddychwelwyd.

Mae un o'r cwestiynau ar y ffurflen adborth yn gofyn i'r rheolwr achos beth fyddent yn ei wneud yn wahanol ar ôl yr arolygiad. Diben hyn yw helpu'r rheini sydd wedi cael eu cyfweld fyfyrio ynghylch yr hyn y maent, gobeithio, wedi ei ddysgu o'r broses arolygu. Mae enghreifftiau o'r gwelliannau y dywedodd rheolwyr achos y byddent yn eu gwneud yn cynnwys:

*"Sicrhau bod y tasgau a greir yn adlewyrchu'r dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a ddefnyddiaf i drafod gyda'r person ifanc beth fyddai'n eu rhwystro hwy rhag aildroseddu a chydymffurfio â'u gorchymyn."*

*"Gwneud fy ymyrraeth yn fwy CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol) a'm cynllun rheoli risg yn fwy holistig."*

*"Esbonio'r hyn nas penderfynwyd yn ogystal â phenderfyniadau."*

*"Cloddio'n ddyfnach am wybodaeth ar ddechrau'r asesiad."*

*"Llunio'r cynllun ymyrryd gyda'r person ifanc."*

**Adborth gan gyrff a arolygwyd**

Roedd y gwerthusiadau gan gyrff arolygu hefyd yn ennyn adborth a oedd yn gadarnhaol yn bennaf – gydag ymatebion i bob un o'r 15 o gwestiynau yn disgyn yn y categori 'yn llawn' neu 'yn bennaf' mewn ymateb i gwestiynau, er enghraifft:

*'Yn gyffredinol – Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r trefniadau cyn arolygu?'*

*'A aeth y tîm ati o ddifrif i ymdrin â materion amrywiaeth ac ymateb iddynt yn ystod yr wythnos?'*

Y bodlonrwydd cyffredinol ynghylch rheoli'r arolygiad oedd 82% yn llawn a 16% yn bennaf. Bydd yr awgrymiadau ar gyfer gwella'n cael eu hystyried yn ein hadolygiad canol-rhaglen yn hwyrach eleni.

**Sylw gan reolwr Tîm Troseddau Ieuenctid**

*"Proses gadarn, wedi ei rheoli'n dda a chefnogol a oedd yn cael ei chroesawu gan bawb."*

**Safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau**

**4.7**
Eleni, rydym wedi defnyddio gwahanol ffyrdd o gael gwybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae cyswllt wyneb yn wyneb yn digwydd ar y Cydarolygiadau Llawn ar rydym wedi gwneud defnydd llwyddiannus o'r myfyrwyr prifysgol a amlinellwyd yn adroddiad y llynedd, ond rydym hefyd wedi archwilio gwaith gydag User Voice[6]. Rydym yn gobeithio y gall y gwaith hwn ddatblygu ymhellach yn y 12 mis nesaf.

**Sylwadau gan blant a phobl ifanc**

---

[6] Elusen yw User Voice sy'n trafod gyda'r rhai anoddaf eu cyrraedd o bobl ifanc sydd â phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol. Am fwy o wybodaeth, ewch i'w gwefan ar *www.uservoice.org*

*"Roedd yn ifanc fel ni, mae'n gwybod. Fe wnaethom edrych ar droseddau sy'n gysylltiedig â gangiau a'r mathau o ddedfrydau y mae pobl yn eu cael a faint mwy o drwbl yr ewch iddo os ydych chi mewn gang. Ac fe wnaethon ni edrych ar sut i osgoi sefyllfaoedd o droseddau sy'n gysylltiedig â gangiau trwy, beth i'w wneud, beth i'w ddweud os yw aelod o gang wrthwynebus yn dod ar yr un bws â chi. Rydych chi'n mynd oddi arno, cerdded i ffwrdd on'd ydych chi, osgoi'r gwrthdaro. Yn y gorffennol fyddwn i ddim wedi gwneud hynny, ond bellach dw i wedi mynd i ffwrdd o bopeth felly."*

*"Maen nhw'n trafod gyda mi ac yn esbonio pethau, fel y gallaf ddeall. Ac maen nhw'n fy helpu fi fynd i gyfarfodydd, maen nhw'n fy ffonio ac yn f'atgoffa. Maen nhw'n cymryd amser ac yn gwneud ymdrech. Nid dim ond troseddwr ydw i idddyn nhw."*

*"Ro'n i'n niweidio fy hun gryn dipyn. Fe wnaeth fy ngweithiwr Tîm Troseddau Ieuenctid diwethaf ... fe ddywedais wrthyn nhw i gyd, ac fe wnaethon nhw fy helpu i. Dw i ddim wedi gwneud dim byd ers tua naw mis."*

*"Ydw. Dw i'n hoyw. Dw i ddim yn cofio os mai* [gweithiwr gwrywaidd Tîm Troseddau Ieuenctid] *neu* [gweithiwr arall] *ydoedd, ond rhoddodd un o'r gweithwyr daflenni imi ar gyfer y cyfarfodydd hyn sydd gan bobl hoyw. Wnes i erioed fynd iddyn nhw, ond mae'n dda fod y gefnogaeth yno."*

*"Mae'n iawn y dylwn wneud hyn, fi oedd yn anghywir. Dw i ddim yn llwfrgi. Rydych chi'n teimlo cywilydd. Mae'r* [y Tîm Troseddau Ieuenctid] *wedi gwneud imi weld yr hyn a wnes i"*.

**Sylwadau gan rieni/gofalwyr**

*"Fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hyn hebddyn nhw. Fe fydden nhw'n edrych ar unrhyw gwestiynau a allai fod gen i. Maen nhw'n dod i i'm gweld i. Dw i'n gallu eistedd ac ymlacio a pheidio â theimlo'n wirion. Rydym wedi adeiladu perthynas dda ac os oes gen i broblem dw i'n dweud popeth wrthyn nhw. Nhw sy'n datrys fy mhroblemau, maen nhw'n gweithio gyda meysydd eraill, yn dod â gwybodaeth na fyddwn i wedi meddwl amdano."*

*"Pe baech chi'n cyfarfod [fy mab] ddwy flynedd yn ôl – ni fyddai fyth yn dod adref, byth yn dod adref, a phan fyddwn i'n ei gael i ddod adref, byddai'n malu'r lle, er enghraifft – drysau. Fe fyddai'n cael ei arestio am ei ymddygiad, ni fyddai'n siarad â fi, dim byd. Yn y ffordd y maen nhw'n siarad ag ef, maen nhw wedi gwneud iddo eistedd i lawr, wedi dysgu iddo sut i fynegi ei deimladau heb fynd yn dreisgar, ac mae wedi cael trefn reolaidd iddo'i hun, sef y peth gorau'r oedd arno ei angen. Fe geisiais i fy ngorau i'w ddisgyblu – fe wnes i geisio popeth, fe ges i'r heddlu ato, popeth, ond doedd dim disgyblu ar y plentyn. Ni fyddai'n gwrando. Roeddwn i hefyd wedi mynd trwy ysgariad, felly roedd popeth yn newydd iddo, felly roedd ganddo lwyth o bethau i ymdrin â nhw."*

*"Os nad ydyn nhw'n cyrraedd mewn pryd [i fynd ag ef i sesiwn cyfiawnder adferol] sut allan nhw ddisgwyl i'r plentyn wneud hynny?"*

*"Mae'r staff yn amyneddgar, yn tawelu meddwl ac yn wych ac fe wnaethon nhw ei helpu gyda'i sgiliau darllen ac ysgrifennu pan wnaeth gais i fynd i'r coleg."*

**Sylwadau gan ddioddefwyr**

"*Roedden nhw* [y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid] *yn dda am esbonio cyfiawnder adferol imi a pha mor dda oedd hynny iddo ef ac i mi."*

"*Roedden nhw* [y Tîm Troseddau Ieuenctid] *yn hyblyg iawn wrth drefnu amserau a lleoliadau cyfarfodydd o gwmpas fy apwyntiadau gyda'r meddyg."*

Rydym hefyd wedi bod yn datblygu eArolwg ar gyfer pob Tîm Troseddau Ieuenctid, sydd wedi'i hwyluso gan y mudiad Viewpoint. Bydd yr arolwg ar gael ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid drwy'r flwyddyn (neu i rai sydd eisoes â'u systemau eu hunain am gyfnod penodedig o chwe wythnos), i'w gwblhau gan blant a phobl ifanc sydd dri i chwe mis i mewn i'w cyswllt gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Bydd data o'u harolwg eu hunain ar gael i bob Tîm Troseddau Ieuenctid yn flynyddol. Mae'r system am ddim ac yn hawdd ei sefydlu a gobeithiwn y bydd pob Tîm Troseddau Ieuenctid wedi ymuno ac y byddant yn cymryd rhan ynddi'n hwyrach eleni.

**Gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Thimau Troseddau Ieuenctid**

**4.8**
Parhawn i gyfarfod yn chwarterol gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin inni. Mae hyn wedi cynnwys Asset Plus, Gweddnewid Dalfeydd Ieuenctid a'r Prosiect Aildroseddu. Tynnir ein sylw at y gwasanaethau hynny sy'n derbyn mewnbwn gwella gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, rhai ohonynt ar ôl arolygiad, monitro cynlluniau gwella, Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid ac materion ad hoc eraill.

O bryd i'w gilydd, rydym yn mynd i gyfarfodydd gyda Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid ledled Cymru a rhanbarthau Lloegr i'n galluogi ni i ledaenu canfyddiadau o arolygiadau thematig a rhoi diweddariadau ar arferion arolygiadau presennol. Rydym wedi cyflwyno nifer o weithdai meincnodi i helpu Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid, rheolwyr canol ac uwch ymarferwyr i ddeall ein prosesau arolygu a'n disgwyliadau. Cynhaliwyd digwyddiad tebyg i Gyfarwyddwyr Cynorthwyol yn Llundain, ynghyd â sesiwn ynghylch ein canfyddiadau ar lywodraethu. Rydym yn ystyried cynnig y rhain i wasanaethau y tu allan i Lundain. Er nad oes adnoddau penodol ar eu cyfer, rydym o'r farn eu bod yn cefnogi gwelliant ac rydym yn derbyn adborth cadarnhaol ar eu gwerth sylweddol i gyfranogwyr.

**Sylw gan Reolwr Tîm Troseddau Ieuenctid**

"*Rwyf newydd gwblhau'r gweithdy dau ddiwrnod ac roedd arnaf eisiau gadael ichi wybod cystal ydoedd. Fe wnaeth y tîm rheolwyr gymryd mantais lawn o'r rhaglen ac roedd llawer o drafod a dadlau drwy gydol yr amser. Rydym i gyd wedi blino ond yn fwy gwybodus o ganlyniad ac mae hyder rheolwyr wedi'i adfer."*

**Enghreifftiau o arferion:**

**Enghraifft o arfer**

Canfuwyd system dda o adnabod ac asesu anghenion plant a phobl ifanc agored i niwed yn 'Ymgyrch X'. Roedd heddlu yn Adran Y wedi datblygu perthynas gyda phob un o'r 40 o gartrefi plant yn y fwrdeistref ac wedi penodi swyddogion cyswllt o dimau cymdogaeth i ymweld â'r cartrefi hyn yn wythnosol. Roedd plant a phobl ifanc a oedd wedi cyrraedd yr ardal o'r tu allan i'r fwrdeistref yn cael eu hadnabod yn ystod yr ymweliadau hyn, roedd unrhyw risgiau'n cael eu hadnabod ac mewn achosion perthnasol roedd gwasanaethau'n cael eu hysbysu, gyda chopïau o'r asesiad risg yn mynd at Wasanaethau Plant, Canolfan Wybodaeth yr Heddlu, Addysg a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Roedd y Tîm Troseddau Ieuenctid wedyn yn gallu sicrhau bod achosion yn cael eu trosglwyddo iddynt hwy lle byddai angen.

**Enghraifft o arfer**

Yn wreiddiol, roedd Zakk ar orchymyn adsefydlu pedwar mis yn dilyn troseddau o ymosod ar swyddog heddlu a'r drefn gyhoeddus. Methodd â chydweithredu â'r Tîm Troseddau Ieuenctid a chafodd ei ailddedfrydu wedyn i orchymyn cadw a hyfforddi o bedwar mis ar ôl torri'r gorchymyn gwreiddiol. Yr ysgogiad sylfaenol dros y drosedd oedd casineb sylweddol at heddweision; casineb a oedd wedi'i atgyfnerthu gan ei deulu. Dechreuodd rheolwr achos y Tîm Troseddau Ieuenctid weithio i ymdrin â phroblemau'n ymwneud ag alcohol a chynigiodd ei fod yn gweithio â heddwas y Tîm Troseddwyr Ieuenctid. Er ei fod yn gyndyn ar y cychwyn, dechreuodd Zakk weithio gydag ef, gan fynd i'r gampfa a'r clwb bocsio. Dros amser, datblygodd Zakk berthynas gadarnhaol gyda heddwas y Tîm Troseddau Ieuenctid a newidiodd ei agwedd tuag at heddweision yn fwy cyffredinol. Mae heddwas y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi lleihau ymhellach y tebygolrwydd o Zakk yn aildroseddu trwy ei gynorthwyo i ennill cymwysterau galwedigaethol ac roedd yn gwneud ymholiadau cyflogaeth ar ei ran i Fenter Z.

**Enghraifft o arfer**

Roedd perthynas Charlie gyda'i dad wedi torri i lawr ac roedd yn byw mewn hostel. Fe wnaeth y rheolwr achos eu helpu hwy i ailadeiladu eu perthynas trwy gyfarfod â'r ddau ohynynt yn rheolaidd, gan drafod y problemau a arferai fod ganddynt a'u helpu hwy i ddatblygu strategaethau i wella'r sefyllfa. O ganlyniad, roedd Charlie yn gallu dychwelyd yn llwyddiannus i fyw gartref.

**Enghraifft o arfer**

Fe wnaeth y gweithiwr, Jo, feithrin perthynas gyda Lee yn ei amser ei hun. Cynhaliwyd yr asesiad fesul ychydig ar y tro. Roedd Jo yn defnyddio iaith hawdd i blant ei deall ac yn mynnu cadarnhad. Roedd yn gwirio'n aml a oedd Lee yn glir ynghylch y cwestiynau a oedd yn cael eu gofyn ac yn defnyddio gwahanol ddulliau a chwestiynau i gasglu'r wybodaeth roedd arni ei hangen. Ar y diwedd, fe wnaeth Jo wahodd Lee i ddweud yn ei eiriau ei hun beth, yn ei farn ef, oedd diben y sesiwn.

**Enghraifft o arfer**

Fe wnaeth arolygwyr y sylw canlynol: *"... ni ofynnodd neb iddo ddweud* [wrth y rheini a oedd yn bresennol] *beth a gredai yr oedd angen iddo'i wneud ... roedd yr iaith a ddefnyddid yn aml yn academaidd neu'n jargon, geiriau fel ôl-drafodaeth, perchnogaeth gymdeithasol, rheoli gwrthdrawiadau ..., pethau y gellid bod wedi rhoi esboniadau ystyrlon yn lle pob un ohonynt iddo."*

**Enghraifft o arfer**

Roedd y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi datblygu perthynas dda gyda chyflogwr i roi cyfleoedd gwerthfawr i blant a phobl ifanc wrth ddatblygu amrywiaeth o sgiliau o fewn lleoliad masnachol. Tafarn/bwyty ar gyrion Swydd Derby oedd yr Eagle & Crown. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn dilyn cwrs garddwriaeth NVQ Lefel 2, gan dyfu llysiau mewn darn y dir y tu ôl i'r dafarn a oedd wedi cael ei dirlunio'n broffesiynol i roi lle i dwnelau polythen dyrchafedig a lle i gwsmeriaid fwyta allan. Roedd lle'n cael ei neilltuo hefyd ar gyfer ieir yr oedd y plant a'r bobl ifanc yn gofalu amdanynt. Defnyddiwyd cynnyrch a dyfwyd yn yr ardd a'r wyau yn y bwyty. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau mewn paratoi bwyd sylfaenol a gwasanaethu cwsmeriaid. Fel rhan o'r rhaglen, roedd y prosiect yn gysylltiedig â Nacro a oedd yn rhoi cymorth gyda Saesneg a mathemateg. Roedd pynciau megis iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal mewn amgylchedd gwaith gwirioneddol ac roedd plant a phobl ifanc yn ymateb yn dda i'r ffordd yr oedd hyn wedi'i osod mewn cyd-destun amgylchedd gwaith. Roedd y rheini a oedd yn ei fynychu'n cael eu symbylu, roeddent yn chwarae eu rhan a gallent adnabod y sgiliau'r oeddent yn eu datblygu, yn enwedig eu sgiliau personol a chyflogadwyedd. Er bod y prosiect yn gymharol newydd, mae dau o'r cyn-hyfforddeion eisoes wedi cael eu cyflogi gan y cwmni.

**Enghraifft o arfer**

Roedd Malcolm, bachgen 16 oed a oedd ar orchymyn adsefydlu ieuenctid am fwrgleriaeth, wedi cael ei osod yng Nghaerloyw gan awdurdod lleol arall. Roedd y rheolwr achos yng Nghaerloyw yn rhagweithiol wrth ofyn am asesiadau ac am i gynlluniau gael eu hadolygu pan fyddai digwyddiadau sylweddol yn digwydd. Roedd gwaith ymyrryd da yn cael ei gyflawni gan y rheolwr achos yng Nghaerloyw, y gweithiwr camddefnyddio sylweddau a'r gweithiwr gangiau mewn ffordd gydgysylltiedig, gyda phwyslais penodol gan y tri ohonynt ar integreiddio cymunedol a gweithgareddau cadarnhaol. Roedd amryw o ddigwyddiadau'n ysgogi'r angen am adolygiadau a gweithredu ar frys a'r Tîm Troseddau Ieuenctid oedd y grym a oedd yn gyrru'r rhain. Roedd goruchwyliaeth gref gan reolwyr; roedd y rheolwr perthnasol yn chwarae rhan ar adegau addas (fel arfer i godi materion gyda chydweithwyr cyfatebol mewn Tîm Troseddau Ieuenctid cyfagos) ac yn helpu sicrhau bod camau'n cael eu cymryd mewn ymateb i risgiau ac anghenion a oedd ar fin codi.

# Pennod 5

## Arolygu Gwaith Troseddau: Cydarolygiadau Thematig

# Pennod 5
# Arolygu Gwaith Troseddau: Cydarolygiadau Thematig

## Trosolwg

### 5.1

Eleni rydym wedi cynnal arolygiadau thematig sy'n rhoi sylw i droseddau oedolion ac ieuenctid. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi edrych ar faes o waith ac gwneud archwiliad manwl o ymarfer yn ogystal â'r trefniadau arwain strategol a phartneriaethau sy'n cefnogi gwaith o'r fath. Roedd pob adroddiad arolygu'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella, ac yn ffurfio rhan o *Gynllun Busnes Cydarolygiadau 2013-15* Cyfiawnder Troseddol (ac eithrio'r adroddiad ar drefniadau cysylltu â dioddefwyr a gafodd ei gomisiynu ar wahân). Rydym wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau y deellir ein canfyddiadau ac y gweithredir ar ein hargymhellion. Bydd hyn yn dal i fod yn fater pwysig wrth i strategaeth y Llywodraeth ar gyfer *Gweddnewid Adsefydlu* ddechrau cael ei weithredu, sy'n golygu y bydd angen i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol roi sylw i argymhellion ein harolygiadau yn y misoedd i ddod. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi ceisio hyrwyddo'n hadroddiadau arolygiadau thematig i'r cyhoedd ar draws amrywiaeth o gyfryngau.

Rydym yn falch fod ein cynlluniau i gynnig lleoliadau tymor byr i staff mewn sefydliadau eraill, gyda phrofiad sy'n berthnasol i arolygiadau thematig penodol, wedi dwyn ffrwyth. Fe wnaeth staff o elusen, prifysgol, ymddiriedolaeth iechyd, Ymddiriedolaeth Prawf a Thîm Troseddau Ieuenctid weithio gyda ni ar arolygiadau thematig dros y flwyddyn. Yn ogystal â gwneud cyfraniad sylweddol i ansawdd yr arolygiadau, fe wnaeth yr unigolion hynny ddysgu hefyd am ein gwaith a dyfnhau eu dealltwriaeth eu hunain o bwnc yr arolygiad.

Rydym wedi gweithio hefyd gyda'n cydweithwyr yn Ofsted ac arolygiaethau eraill i symud ymlaen gyda chynllunio ar gyfer y rhaglen ddiwygiedig o Arolygiadau Amlasiantaethol Diogelu Plant y bwriedir eu lansio ym mis Ebrill 2016.

Yn ystod 2013-14 cyhoeddasom:

- adroddiad ar garcharorion ar ddedfrydau oes, *Cydarolygiad o Garcharorion ar Ddedfrydau Oes*
- adroddiad ar drefniadau cysylltu â dioddefwyr mewn Ymddiriedolaethau Prawf, *Cysylltu â Dioddefwyr: Arolygiad o'r trefniadau cysylltu â dioddefwyr mewn Ymddiredolaethau Prawf*
- y cyntaf o ddau adroddiad ar bobl ag anableddau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol, *Cydarolygiad o driniaeth troseddwyr ag anableddau dysgu o fewn y system cyfiawnder troseddol – cam 1 o'r arestio at y dedfrydu*
- adroddiad ar Reolaeth Integredig Troseddwyr, *Cydarolygiad o'r Dull Integredig o Reoli Troseddwyr.*

Rydym hefyd wedi arwain arolygiadau ar enethod a merched ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, y ffordd y caiff pobl ag anableddau dysgu eu trin yn y carchar ac yn y gymuned, trefniadau Amddiffyn Plant mewn Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddau Ieuenctid a chyfraniad Timau Troseddau Ieuenctid at y fenter Teuluoedd Cythryblus. Rydym hefyd wedi cwblhau cam terfynol ein gwaith maes yn y gymuned ar gyfer yr arolygiad o dan arweiniad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar effeithiolrwydd trefniadau ailsefydlu i oedolion mewn carchar. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn 2014.

**Cydarolygiad o Garcharorion ar Ddedfrydau Oes: Medi 2013**

**5.2**

Gan weithio gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, fe wnaethom asesu'r graddau y caiff carcharorion ar ddedfrydau oes eu cefnogi yn ystod cyfnodau eu dedfryd yn y carchar ac ar drwydded, o ran: gwneud y pontio o amodau caeedig i rai agored; lleihau'r risg o niwed y maent yn ei beri i eraill a'r tebygolrwydd iddynt aildroseddu; paratoi ar gyfer rhyddhau; cynnal cysylltiadau ag ardal eu cartref a'u teulu ac ailsefydlu yn y gymuned ar ôl cael eu rhyddhau.

Ymwelasom â chwe Ymddiriedolaeth Prawf a chwe charchar ac fe wnaethom asesu gwaith gyda 60 o garcharorion a 60 o bobl a oedd wedi cael eu rhyddhau ar drwydded i'r gymuned yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.

Er gwaethaf yr amser a gymerodd i gyrraedd pwynt y trosglwyddo i garchar agored, nid oedd carcharorion ar ddedfrydau oes wedi eu paratoi'n dda ar gyfer y trosglwyddo hwn. Unwaith yr oeddent mewn amodau agored, roedd y paratoi ar gyfer rhyddhau'n dibynnu'n helaeth ar y defnydd o ryddhau ar drwydded dros dro, yn hytrach nag ar ymyraethau eraill megis cyrsiau a luniwyd i ddatblygu sgiliau bywyd. Roedd eithriadau i hyn fodd bynnag, fel y dengys yr enghraifft ganlynol:

**Enghraifft o arfer dda**

Roedd un o'r goruchwylwyr troseddau yng Ngharchar Kirkham, swyddog gwasanaethau prawf, wedi dyfeisio sesiwn fer i garcharorion a oedd ar fin cael eu rhyddau am y tro cyntaf ar drwydded dros dro o'r carchar. Roedd hyn yn golygu bod y carcharor yn cwblhau taflenni gwaith lle'r oeddent yn adnabod eu nodau ar gyfer rhyddhau ar drwydded dros dro, yn amlinellu beth oedd eu disgwyliadau ac, yn allweddol, pa broblemau y gallent eu hwynebu tra oeddent wedi eu rhyddhau ar drwydded dros dro. Ffurfiwyd cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael â phroblemau posibl trwy drafodaeth gr□p. Ymddangosai fod y cynllun syml hwn yn arfer dda, y gellid, yn ein barn ni, ei datblygu ymhellach trwy gynnwys aelodau o'r teulu yn y cynllunio a'r trafod.

Er ei fod yn rhan dyngedfennol o baratoi ar gyfer rhyddhau, nid oedd rhyddhau ar drwydded dros dro yn cael ei gynllunio'n dda bob amser nac yn cael ei gadarnhau gan asesiad trylwyr o risg. Yn ogystal, roedd ansawdd asesiadau a chynlluniau i reoli'r ddedfryd a'r risg o niwed yr oedd y carcharor yn ei achosi, yn gofyn am welliant sylweddol ac yn llesteirio cynnydd yn ystod cyfnod y ddedfryd oes a dreulid yn y ddalfa.

**Dyfyniad gan garcharor**

"*roedd pethau sylfaenol* [ar goll] *fel cael help i gael hyd i leoedd pan ydych chi'n mynd allan ar ymweliadau â threfi, dylent roi mapiau ichi er mwyn sicrhau eich bod yn mynd i'r lleoedd iawn (ee cyfweliad), ac yn gwybod eich ffordd fel eich bod yn cyrraedd yn ôl mewn pryd."*

Roedd y rheini a oedd wedi eu rhyddhau ar drwydded oes yn gwerthfawrogi cymorth eu rheolwyr troseddwyr ac yn cydymffurfio. Roedd canlyniadau ailsefydlu, gan gynnwys ennill cyflogaeth, llety sefydlog a chysylltiadau cymunedol, yn dda i'r troseddwyr yn ein sampl, yn enwedig yn wyneb y stigma sy'n gysylltiedig â dedfryd oes. Roedd adalw i'r carchar yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, a hynny dim ond pan oedd yn angenrheidiol, ac roedd dewisiadau creadigol eraill, megis gorfodi cyfyngiadau ychwanegol megis cyrffyw neu fyw mewn llety a gymeradwywyd, yn aml yn llwyddiannus.

**Enghraifft o arfer dda**

Dim ond 19 oed oedd Stuart pan dderbyniodd ddedfryd oes am lofruddio. Ers ei ryddhau, roedd wedi bod yn byw mewn llety a gymeradwywyd yng Ngwlad yr Haf, er bod ganddo gysylltiadau teuluol hefyd yn yr ardal. Roedd y rheolwr troseddwyr wedi gwneud defnydd da o'r teulu yn yr achos hwn, fel ffynhonnell o wybodaeth ynghylch lefel gyfredol defnydd neu ymwrthodiad Stuart o alcohol neu sylweddau, ond hefyd i helpu llywio'r gwaith gyda Stuart. Trefnodd gynhadledd achos yng nghartref y teulu wrth i amser Stuart yn y llety cymeradwy ddod i ben, er mwyn helpu arwain y cynllunio ar gyfer llety dilynol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

*Camau i'w cymryd gan NOMS:*

- defnyddio'r cyfle a gynigir yn y strategaeth *Gweddnewid Adsefydlu* i ailasesu sut y caiff carcharorion ar ddedfrydau oes eu rheoli yn y ddalfa ac yn y gymuned, gyda nod o ganolbwyntio'n gliriach ac yn strategol ar y gr□p hwn o droseddwyr a sicrhau bod amrywiaeth helaeth o wasanaethau a luniwyd i hyrwyddo adsefydlu ar gael iddynt
- cyhoeddi canllawiau sy'n datgan diben asesiadau System Asesu Troseddwyr (OASys) ac sy'n pwysleisio pwysigrwydd dadansoddi'r symbyliad gwaelodol a'r ysgogiadau dros y drosedd wreiddiol er mwyn gwella ansawdd asesiad risg o niwed i eraill; dylai canllawiau o'r fath egluro hefyd pwy sy'n gyfrifol am asesiadau ar gamau allweddol o gynnydd y carcharor trwy gyfnod y ddedfryd a dreulir yn y ddalfa
- sicrhau bod llety a gymeradwywyd yn cael ei ddefnyddio i'r unigolion hynny sy'n peri'r risg mwyaf o niwed i eraill.

*Camau i'w cymryd gan garchardai:*

- sicrhau bod rhyddhau ar drwydded dros dro yn strwythuredig, ei fod wedi ei risg-asesu'n llawn a'i gynllunio'n dda fel bod ganddo'r siawns orau bosibl o gyfrannu at adsefydlu'r carcharor yn llwyddiannus yn y dyfodol
- paratoi carcharorion ar gyfer amodau agored er mwyn lleihau cymaint ag y bo modd ar effaith y newid sylweddol mewn amgylchedd ac adolygu asesiad y System Asesu Troseddwyr ar ôl i'r symud ddigwydd.

*Camau i'w cymryd gan Ymddiriedolaethau Prawf:*

- sicrhau bod rheolwyr troseddwyr yn cael mwy o ddylanwad ar y broses o benderfynu rhyddhau ar drwydded dros dro o fewn carchardai, gan gynnwys rhannu gwybodaeth ynghylch rhyddau ar drwydded dros dro gydag asiantaethau Amlasiantaethol Diogelu'r Cyhoedd lle bo'n angenrheidiol, er mwyn sicrhau bod rhyddau ar drwydded dros dro yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i baratoi carcharorion ar ddedfrydau oes ar gyfer cael eu rhyddhau
- cynnig hyfforddiant i reolwyr troseddwyr ar sut i gynllunio a chyflawni gwaith sy'n ennyn brwdfrydedd a diddordeb y rheini ar drwydded oes, felly'n cynnal cydweithrediad y troseddwr dros gyfnod estynedig y drwydded.

*Camau i'w cymryd gan garchardai ac Ymddiriedolaethau Prawf:*

- gwella ansawdd y gwaith o gynllunio dedfrydau a chynlluniau i reoli'r risg o niwed i eraill er mwyn cyfarwyddo gwaith yn effeithiol gyda charcharorion ar ddedfrydau oes, a thrwy hynny, gynyddu'r posibilrwydd o ganlyniadau llwyddiannus
- cynnwys teulu neu bartner y carcharor sydd ar ddedfryd oes, lle bo'n addas gwneud hynny, wrth gynllunio, cyflawni ac adolygu gwaith a lunir i fynd i'r afael â'r risg o niwed i eraill a'r tebygolrwydd o aildroseddu, gyda'r nod o geisio hynny ag y bo modd o ddylanwad cadarnhaol y teulu ar y carcharor sydd ar ddedfryd oes.

**Cysylltu â Dioddefwyr: Arolygiad o'r trefniadau ar gyfer cysylltu â dioddefwyr mewn Ymddiriedolaethau Prawf: Tachwedd 2013**

**5.3**

Cafodd yr arolygiad hwn ei wneud mewn ymateb i gais penodol a gyflwynwyd gan y Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion. Yn dilyn adroddiad gan y Comisiynydd gofynnwyd inni adolygu'r cynllun cysylltu â dioddefwyr.

Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar ansawdd gwaith a wnaed i gysylltu â dioddefwyr gyda dioddefwyr troseddau rhywiol a threisgar difrifol lle'r oedd y troseddwr wedi derbyn dedfryd o 12 mis o leiaf o garchar. Ymwelasom â chwe Ymddiriedolaeth Prawf i asesu ansawdd gwaith cysylltu â dioddefwyr trwy gyfweld dioddefwyr ac asesu gwaith rheolwyr troseddwyr a staff cysylltu â dioddefwyr. Rhwng pawb, buom yn cyfweld 28 o ddioddefwyr ac yn asesu 72 o achosion cysylltu â dioddefwyr. Buom hefyd yn cyfweld â rheolwyr a staff allweddol o gyrff lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â gwaith cysylltu â dioddefwyr.

Roedd y dioddefwyr a gafodd eu cyfweld yn ystod cwrs yr arolygiad yn gyffredinol yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniasant gan y gwasanaeth cysylltu â dioddefwyr. Roedd yn ddealladwy bod llawer wedi dioddef trawma o ganlyniad i'r troseddau a gyflawnwyd yn eu herbyn hwy neu aelod o'r teulu ac, i'r unigolion hyn, ni fyddai bywyd fyth yr un fath iddynt eto. Daliai nifer ohonynt i fod ag ofn y troseddwr, hyd yn oed pan oedd y drosedd wedi digwydd flynyddoedd lawer ynghynt. Roedd yn galonogol iawn, felly, darganfod bod y mwyafrif llethol yn gwerthfawrogi'n fawr eu cyswllt gyda'r swyddogion cysylltu â dioddefwyr unigol, ac yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi ganddynt ar bwyntiau allweddol yn nedfryd y troseddwr.

**Enghraifft o arfer dda**

Dywedodd Violet, dioddefwraig sy'n byw yn Llundain, fod cyfarfodydd gyda'r swyddog cysylltu â dioddefwyr yn digwydd fel arfer yn ei chartref oherwydd ei bod yn fregus iawn yn emosiynol. Roedd gan ei swyddog cysylltu â dioddefwyr wybodaeth dda iawn am ei hachos, yn deall amgylchiadau'r achos yn llawn, ac yn gadael i Violet siarad ynghylch sut yr oedd yn teimlo. Ni wnaeth erioed roi Violet o dan unrhyw bwysau. Yn ogystal â hynny, fe wnaeth y swyddog esbonio'r cynllun cysylltu â dioddefwyr a gadael i Violet wybod beth y gallai ei ddisgwyl o ran gwybodaeth a pha bryd. Dywedodd Violet y teimlai fod y swyddog cysylltu â dioddefwyr yn gwneud y profiad yn bersonol yn hytrach na'i wneud yn broses rhoi gwybodaeth yn unig. Pan geisiodd y troseddwr gysylltu â'r dioddefwr, rhoddodd y swyddog cysylltu gyngor clir i Violet ynghylch sut i ymateb.

Roeddem, fodd bynnag, yn siomedig o ddarganfod nad oedd pob rheolwr troseddwyr yn llawn sylweddoli effaith y drosedd ar y dioddefwr. Roedd hyn yn anochel yn eu gwneud hwy'n llai abl i ddeall pryderon y dioddefwr, neu ymateb iddynt, fel roedd yn amlwg yn yr achos canlynol:

**Enghraifft o arfer**

Roedd dau ddyn wedi aflonyddu ar y dioddefwr, dyn 52 oed, ac wedyn wedi ymosod yn dreisgar arno. Dywedodd y dioddefwr yn yr adroddiad effaith ar ddioddefwyr fod ei iechyd wedi dirywio'n enbyd, bod ei iselder wedi dod yn llawer gwaeth, ac nad oedd yn mynd allan gyda'r nos mwyach gan fod arno ofn ymosodiadau dialgar a theimlai fod ei fywyd mewn perygl cyson. Roedd ar wrth-iselyddion o ganlyniad i'r ymosodiad. Roedd wedi torri ei fraich a oedd yn cael ei dal gyda'i gilydd bellach â phlât. Roedd yn siomedig iawn gweld bod y rheolwr troseddwyr, wrth gwblhau'r adran berthnasol o ddadansoddiad o'r drosedd yn yr asesiad dioddefwyr, wedi methu â chydnabod yr effaith anferthol yr oedd y drosedd hon wedi ei gael ar y dioddefwr, gan ddisgrifio effaith y drosedd ar y dioddefwr fel dim byd mwy na *'dioddef braich wedi torri'.*

Er hynny, gwelsom rai enghreifftiau da o weithio ar y cyd rhwng swyddogion cysylltu â dioddefwyr a rheolwyr troseddwyr yn ystod yr arolygiad hwn.

**Enghraifft o arfer dda**

Roedd troseddwr rhyw o Ddyfnaint a Chernyw wedi mynd ar y cychwyn i lety a gymeradwywyd ar ôl cael ei ryddhau ar drwydded. Roedd yn berchen ar gartref yn y dref fach lle'r oedd wedi cyflawni ei droseddau. Roedd un o'i ddioddefwyr, a oedd yn dal yn byw yn y dref honno, yn cydnabod bod gan y troseddwr gyfeillion cefnogol yn yr ardal, felly roedd hi'n ffafrio dychweliad wedi'i drefnu i'w gartref yn hytrach nag ef yn ymddangos yn ddirybudd ar ddiwedd ei drwydded. Cytunodd y swyddog cysylltu â dioddefwyr a'r rheolwr troseddwr ar ardal wahardd fach ac amodau trwydded a oedd yn rhwystro'r troseddwr rhag cysylltu â'r dioddefwr. Roedd y cynllun rheoli risg a gynhyrchwyd gan y rheolwr troseddwyr yn sicrhau bod ffyrdd allan o'r stad lle'r oedd y troseddwr yn byw yn cael eu diffinio'n glir er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o'r troseddwr a'r dioddefwr yn cyfarfod. Roedd y cynllun hefyd yn gosod amserau pryd y byddai'r troseddwyr yn ymweld â'r archfarchnad fach, leol, fel y byddai'r dioddefwr yn gallu gwybod am yr adegau y byddai yno a lleihau'r tebygolrwydd iddynt gyfarfod yn ddamweiniol. Roedd y rhain yn drefniadau â meddwl trylwyr y tu ôl iddynt, a gafodd eu llunio, yn ôl y rheolwr troseddwyr, i sefydlu 'arferion da' yn y troseddwr y byddai'n parhau â hwy ar ôl i'w drwydded orffen.

Mae cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer strwythur y gwasanaeth prawf yn y dyfodol yn cadarnhau y bydd cyfrifoldeb am waith cysylltu â dioddefwyr yn dal i fod o fewn swyddogaeth y gwasanaeth prawf cyhoeddus er mwyn i ddioddefwr gael y gefnogaeth orau bosibl. Yng ngoleuni ein canfyddiad, fod canlyniadau i ddioddefwyr yn well pan oedd rheolwyr troseddwyr a swyddogion cysylltu â dioddefwyr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, byddem yn llwyr gymeradwyo'r penderfyniad hwnnw.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr argymhellion canlynol i hyrwyddo gwelliant:

***Gwaith y dylai NOMS ei wneud i wella diogelwch dioddefwyr a diweddaru eu gwybodaeth yn llawn ac yn gyson:***

- sicrhau bod staff cysylltu â dioddefwyr yn wybodus ynghylch gweithio gyda chleifion sydd ag anhwylder meddwl ac sy'n destun gorchymyn ysbyty
- darparu  uned cysylltu â dioddefwyrgyda system rheolaeth achos cyswllt â dioddefwyr gynhwysfawr a defnyddiol. .

***Gwaith y dylai Ymddiriedolaethau Prawf ei wneud i wella diogelwch dioddefwyr a diweddaru eu gwybodaeth yn llawn ac yn gyson:***

- ymgorffori eu profiad yn yr asesiad risg o niwed a'r cynllun rheoli risg
- eu hysbysu o ddigwyddiadau perthnasol i'r dioddefwr sy'n digwydd yn ystod dedfryd troseddwr a'u galluogi i esbonio unrhyw bryderon a all ddylanwadu ar gynlluniau rheoli risg a chynlluniau dedfrydau
- darparu nodiadau y cytunwyd arnynt ym mhob cyfarfod rhannu gwybodaeth neu sgyrsiau ffôn y maent wedi eu cael gyda swyddogion cysylltu â dioddefwyr
- sicrhau eu bod yn gwybod sut i gwyno os ydynt yn anfodol gyda'r gwasanaeth
- sicrhau bod swyddogion cysylltu â dioddefwyr yn derbyn cymorth a hyfforddiant addas mewn cydnabyddiaeth o natur emosiynol anodd eu rôl
- gweithio gyda thimau troseddau ieuenctid lleol i sicrhau bod protocolau a threfniadau gwaith angenrheidiol yn eu lle er mwyn sicrhau bod y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yn cael ei weithredu'n llawn mewn achosion a oruchwylir gan dimau troseddau ieuenctid.

***Gwaith y dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ei wneud i wella diogelwch dioddefwyr a diweddaru eu gwybodaeth yn llawn ac yn gyson:***

- cyhoeddi cyngor pellach i dimau troseddau ieuenctid sy'n ymwneud yn benodol â pha achosion sy'n disgyn i'r categori statudol cysylltu â dioddefwyr
- cynnwys gofyniad o fewn y fanyleb ar gyfer systemau rheoli achosion timau troseddau ieuenctid am system tynnu sylw awtomatig at achosion statudol cysylltu â dioddefwyr.

***Gwaith y dylai Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid ei wneud i wella diogelwch dioddefwyr a diweddaru eu gwybodaeth yn llawn ac yn gyson:***

- sicrhau bod eu timau'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion ar gyfer gwaith statudol cysylltu â dioddefwyr fel y'u nodir yn y Safonau Cenedlaethol a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Dioddefwyr Troseddau.

**Cydarolygiad o'r ffordd y caiff troseddwyr ag anableddau dysgu eu trin o fewn y system cyfiawnder troseddol – cam 1 o'r arestio at y dedfrydu: Ionawr 2014**

**5.4**

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gyda chymorth gan y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Wasanaeth Erlyn y Goron, a dyma'r cam cyntaf o arolygiad dau ran i archwilio'r ffordd y caiff troseddwyr ag anableddau dysgu eu trin o fewn y system cyfiawnder troseddol. Roedd yr arolygiad yn edrych ar effeithiolrwydd gwaith a gyflawnir mewn gorsafoedd heddlu, yr erlyniad a phroses y llys, paratoi adroddiad cyn dedfrydu a'r asesu a'r cynllunio a wneir ar gychwyn gorchymyn cymunedol. Cynhaliwyd arolygiad pellach (cam 2) rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2014 a oedd yn canolbwyntio ar waith gyda throseddwyr ag anableddau dysgu yn y ddalfa a thra oeddent yn destun goruchwyliaeth yn y gymuned. Bydd yr adroddiad ar yr arolygiad hwn yn cael ei gyhoeddi'n hwyrach yn 2014.

Ymwelasom â chwe ardal yng Nghymru a Lloegr i asesu ansawdd y gwaith. Archwilasom 96 o gofnodion dalfeydd yr heddlu a 60 o achosion prawf. Yn ogystal, archwiliwyd cofnodion Gwasanaeth Erlyn y Goron ar 44 o'r achosion hyn. Fe wnaethom hefyd gyfweld rheolwyr a staff allweddol o sefydliadau lleol a chenedlaethol.

Canfuom fod cael amcangyfrif manwl gywir o'r nifer o bobl ag anableddau dysgu sydd o fewn y system cyfiawnder troseddol yn amhosibl oherwydd dehongliadau gwael, ynghylch beth sy'n cyfrif fel anabledd dysgu a methiant i adnabod a chofnodi'r mater hwn yn iawn gan bob un o'r asiantaethau allweddol ar bob pwynt yn y broses cyfiawnder

troseddol. I raddau helaeth, dangos y problemau hyn o ddiffinio ac adnabod y mae canfyddiadau penodol yr arolygiad hwn. O ganlyniad, mae anghenion troseddwyr ag anableddau dysgu'n cael eu hanghofio'n aml. Roedd rhai pocedi o arferion da ac enghreifftiau o ymarferwyr yn 'cerdded yr ail filltir' i sicrhau bod y troseddwyr hyn yn derbyn y cymorth a'r driniaeth yr oedd arnynt eu hangen. Fodd bynnag, eithriad yn hytrach na'r hyn sy'n arferol oedd enghreifftiau o arferion da.

Cyswllt â'r heddlu yw'r cam cyntaf yn y system cyfiawnder troseddol, ac i'r mwyafrif o droseddwyr ag anableddau dysgu, dyma'r cyfle cyntaf i gael asesu eu hanghenion. Canfuom nad oedd gan staff dalfeydd yr heddlu'r sgiliau digonol i adnabod ac ymateb i anghenion pobl ag anableddau dysgu ac nid oedd 'Oedolion Cymeradwy' bob amser ar gael. Yn ogystal, anaml y mae staff dalfeydd yr heddlu'n gallu cael at weithwyr arbenigol y gallent gyfeirio pobl ag anableddau dysgu atynt. Roedd enghreifftiau o arferion da, fodd bynnag:

**Enghreifftiau o arferion da**

Roedd Michael wedi cael ei arestio am ymosodiadau anweddus. Cafodd ei gyfweld gydag Oedolyn Priodol yn bresennol a dengys cofnodion y cyfweliad fod yr Oedolyn Priodol wedi ymyrryd pan geisiodd yr heddlu brofi dealltwriaeth Michael ynghylch cael ei arestio. Er bod Michael yn gwybod ei fod wedi cael ei arestio, ni ddeallai pam, na beth oedd hynny'n ei olygu. Cynghorodd yr Oedolyn Cymeradwy Michael a'r heddlu y dylai gael ei asesu'n llawn gan Nyrs Seiciatrig Gymunedol cyn iddo gael ei gyfweld ymhellach. Roedd hyn yn helpu gyda chyfweliadau dilynol gan fod gan Michael ddealltwriaeth well o'r hyn a ofynnwyd iddo.

Roedd troseddwr ag awtistiaeth wedi cael ei arestio am fwrgleriaeth. Dywedodd wrth yr heddlu mewn cyfweliad iddo ddilyn cyfarwyddiadau gan droseddwr arall ac nad oedd yn sylweddoli bod ei weithredoedd yn anghywir. Dywedwyd wrth gyfreithiwr cyhuddo Gwasanaeth Erlyn y Goron am yr awtistiaeth ond ni roddwyd manylion yr hyn a ddywedwyd yn y cyfweliad iddo. Er na fyddai hyn wedi newid y penderfyniad i gyhuddo, gallai fod wedi arbed rhywfaint o amser. Cafodd yr wybodaeth ei darparu'n hwyrach ond ni chafodd ei hystyried gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Gofynnodd yr amddiffyniad yn hwyrach am asesiad ynghylch gallu meddyliol y diffynnydd, a arweiniodd yn y diwedd at ble euog.

I lawer o bobl ag anableddau dysgu, roedd y profiad o fod mewn llys yn peri dryswch ac, ar adegau, dychryn, oherwydd na wnaed fawr o ymgais i esbonio'r broses iddynt mewn termau y gallent eu deall yn hawdd.

Yn olaf, roeddem yn bryderus bod adroddiadau cyn dedfrydu a baratowyd gan staff y gwasanaeth prawf ar bobl ag anableddau dysgu yn aml yn methu â dadansoddi'n briodol sut yr oedd yr anabledd yn effeithio ar eu troseddu, er bod rhai Ymddiriedolaethau Prawf wedi cymryd camau i wellau'u harferion:

**Enghraifft o arfer dda**

Yn ne Cymru, fe wnaeth Nyrs Seiciatrig Gymunedol gyda gwybodaeth arbenigol o anableddau dysgu ddarparu cyngor i reolwyr troseddwyr a oedd yn paratoi adroddiadau ar droseddwyr ag anableddau dysgu; fe wnaeth hyn helpu awdur yr adroddiad i ymdrin yn well ag anabledd dysgu'r troseddwr mewn adroddiadau.

Fe wnaethom nifer o argymhellion y dylai'r canlynol ei wneud i wella:

***Dylai pob asiantaeth cyfiawnder troseddol*:**

- fabwysiadu ar y cyd ddiffiniad o anabledd dysgu.

***Dylai Heddluoedd a Gwasanaeth Erlyn y Goron*:**

- sicrhau bod penderfynwyr yr Heddlu a chyfreithwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cael gwybodaeth ynghylch anabledd dysgu wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyhuddo ac erlyn
- sicrhau bod anabledd dysgu'r diffynnydd yn cael ei ystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau ar gyhuddo ac erlyn.

***Dylai Heddluoedd:***

- drefnu bod offer sgrinio effeithiol ar gael ym mhob dalfa, i gynorthwyo staff dalfeydd wrth adnabod pobl dan glo sydd ag anableddau dysgu
- sicrhau bod hawliau a buddiannau pobl ag anableddau dysgu sydd yn nalfa'r heddlu'n cael eu diogelu trwy ddarparu cynlluniau Oedolyn Priodol o ansawdd da sydd ar gael yn ystod oriau gwaith arferol a'r tu allan iddynt
- sicrhau bod, wrth eu dylunio, dalfeydd newydd a rhai a adnewyddir yn ystyried mannau wedi eu sgrinio lle gall pobl dan glo a allai fod yn agored i niwed gael eu cyfweld mewn preifatrwydd fel bod asesiad o anabledd dysgu rhywun a gedwir yn y ddalfa yn fwy tebygol
- sicrhau bod staff dalfeydd yn gwybod digon am amrywiaeth o anableddau dysgu ac am ofynion y Codau Ymddygiad fel bod pobl o dan glo sydd ag anableddau dysgu yn cael eu trin fel 'personau agored i niwed'.

***Dylai'r Adran Iechyd a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr (Iechyd a Chyfiawnder):***

- sicrhau bod staff arbenigol anableddau dysgu ar gael i ddalfydd a llysoedd i gefnogi asesiadau a'r gwaith o gyfeirio troseddwyr ag anableddau dysgu at wasanaethau addas
- sicrhau bod Achwilwyr Meddygol Heddluoedd yn cael eu hyfforddi'n llawn i asesu a thrin pobl dan glo sydd ag anableddau dysgu, a bod staff meddygol yn cael eu hysbysu o union ofynion y Codau Ymddygiad o safbwynt yr angen am Oedolion Priodol.

***Dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi:***

- sicrhau bod pob cam posibl yn cael eu cymryd i gynorthwyo diffynyddion sy'n agored i niwed i ddeall a chymryd rhan mewn achosion llys yn unol â Chyfarwyddyd Cyfunol Arferion Troseddol, 2011: triniaeth diffynyddion sy'n agored i niwed.

**Cydarolygiad o'r Dull Integredig o Reoli Troseddwyr: Mawrth 2014**

**5.5**

Cynaliasom yr arolygiad hwn ar y cyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ac edrychasom ar adnabod troseddwyr addas, asesu, cynllunio, ymyraethau a chanlyniadau perfformiad o safbwynt Rheolaeth Integredig o Droseddwyr (IOM).

Ymwelasom â chwe ardal a chyfweld staff strategol a gweithredol, a chynaliasom gyfweliadau'n ymwneud â 108 o achosion gan ddefnyddio dull asesu achosion yr oeddem wedi'i ddyfeisio. Yn ogystal, siaradasom â 16 o droseddwyr a oedd yn destun IOM.

Mae dull o weithio gyda throseddwyr, megis IOM, yn rhoi cyfle i'r heddlu a staff y gwasanaeth prawf ynghyd â gweithwyr eraill megis arbenigwyr cyffuriau cymunedol i adnabod troseddwyr sydd â risg uchel o droseddu a chynnig amrywiaeth o ymyraethau adsefydlu adeiladol iddynt, ynghyd â phwyslais cryf ar ymyraethau gorfodi a chyfyngu lle bo angen. Mae egwyddorion IOM yn pwysleisio y dylai pob partner gydweithredu wrth weithio gyda throseddwyr, ac yn eu tro, bod yn rhaid i droseddwyr wynebu eu cyfrifoldebau neu wynebu'r canlyniadau.

Nid oes unrhyw feini prawf perfformiad y cytunwyd arnynt i asesu teilyngdod dulliau IOM yn eu herbyn; er bod disgwyliad y bydd dull Rheoli Integredig effeithiol yn cyfrannu at gyrraedd nod y Swyddfa Gartref o dorri troseddu ac uchelgeisiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i leihau aildroseddu ymhellach.

Mae gweithio mewn partneriaeth i reoli troseddwyr ar y cyd yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol. Fodd bynnag, dengys ein canfyddiadau bod dulliau'n fwy effeithiol yn yr ardaloedd hynny lle mae asiantaethau'n canolbwyntio ar eu cyfraniad unigryw o fewn fframwaith y bartneriaeth. Mewn nifer o achosion, roedd yr ymyraethau a gyflwynwyd i hyrwyddo adsefydlu yn rhai addawol:

**Enghraifft o arfer dda**

Roedd Mark yn ddefnyddiwr sylweddau hirdymor gyda hanes helaeth iawn o droseddu. Tra oedd yn y ddalfa, datblygwyd cynllun cynhwysfawr i fynd i'r afael â'i anghenion troseddu. Cyfarfuwyd ag ef yn y carchar ar ei dddyddiad rhyddhau gan weithiwr prosiect tai ac aeth yn syth i lety adsefydlu preswyl ar gyfer ei broblem o ddibyniaeth ar gyffuriau. Ar ôl cwblhau'r cam hwn o'i adferiad, symudwyd ef i lety â chymorth ac roedd yn dechrau archwilio problemau eraill cysylltiedig â'i droseddu megis diffyg addysg a hyfforddiant. Ar adeg yr arolygiad, roedd wedi parhau i ymatal rhag troseddu.

Gwelsom hefyd enghreifftiau rhagorol o weithgaredd cyfyngu/gorfodi a rhannu gwybodaeth:

**Enghraifft o arfer dda**

Yng Nghonwy, fe wnaeth troseddwr gyda gwarant nad oedd wedi cadw ato alw'i reolwr troseddwyr yn y gwasanaeth prawf o linell ffôn dir nad oedd yn gysylltiedig â'i gyfeiriad ei hun. Trwy wirio'r rhif ffôn y derbyniwyd yr alwad gyda'r gronfa ddata IOM, olrheiniwyd ffynhonnell yr alwad i gyfeiriad troseddwr arall. Roedd y cydgysylltydd IOM yn gallu trefnu i gwnstabl heddlu lleol ymweld â'r cyfeiriad ar unwaith ac arestio'n gyflym.

Er hyn mae'n dal angen datblygu pellach ar sail tystiolaeth IOM. Mae ceisio cydbwyso'r awydd am adsefydlu gyda'r gofyniad i dargedu gweithgaredd gorfodi ar y rheini sydd fwyaf tebygol o aildroseddu, a chipio hyn o fewn fframwaith perfformiad, yn waith sy'n dal i ddatblygu.

Roedd ein hargymhellion yn yr adroddiad fel a ganlyn:

***Camau i'w cymryd gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:***

- adolygu egwyddorion a chanllawiau IOM i roi fframwaith sengl i'r troseddwyr hynny a gaiff eu hadnabod fel rhai addas, gan gynnwys disgrifiad clir o natur y gwaith i'w gyflawni
- diddymu'r holl ofynion a chanllawiau blaenorol, megis y rheini sy'n ymwneud â'r cynllun troseddwyr cyson a throseddwyr eraill â blaenoriaeth, ac ymgorffori'r rhain i'r canllawiau newydd lle bo'n berthnasol
- hyrwyddo fframwaith blaenoriaethu i adlewyrchu'n gywirach yr amcanion i'w dilyn gyda throseddwyr unigol
- sicrhau bod egwyddorion IOM yn cael eu hymgorffori i raglen *Gweddnewid Adsefydlu*, gyda chymhellion perfformiad clir i ddarparwyr gwasanaethau prawf gyfrannu at IOM
- sicrhau bod contractau newydd ar gyfer monitro troseddwyr yn electronig yn cynnig fframwaith cyfreithiol addas i'r troseddwyr hynny sy'n destun gorchmynion statudol a reolir o fewn IOM
- comisiynu gwerthusiad annibynnol, awdurdodol a strwythurol o gost a buddion IOM o safbwynt lleihau troseddu; lleihau amlder a/neu ddifrifoldeb aildroseddu; ac ymateb rhag troseddu yn y pen draw.

***Camau i'w cymryd gan Brif Gwnstabliaid:***

- hyrwyddo buddion IOM i'r holl swyddogion a staff yn ardal eu heddlu, yn enwedig y rheini sy'n gweithio ar y rheng flaen
- sicrhau bod prosesau ar waith sy'n sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n ôl ac ymlaen rhwng unedau IOM a swyddogion heddlu a staff rheng flaen

***Camau i'w cymryd gan Ymddiriedolaethau Prawf:***

- chwarae rhan weithredol ar lefel strategol, i sicrhau bod IOM yn effeithiol
- darparu gwasanaethau addas i'r holl droseddwyr a reolir o fewn IOM, waeth beth fo'u statws statudol.

***Camau i'w cymryd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:***

- sicrhau bod Timau Troseddau Ieuenctid yn sylweddoli'r buddion o gydweithio gyda dulliau IOM.

***Camau i'w cymryd gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol:***

- sicrhau bod pob partner perthnasol yn chwarae rhan wrth gyflawni IOM, fel cyfraniad pwysig at leihau troseddu lleol
- dynodi un swyddog arweiniol penodol o statws digonol i gyfrannu at gynllunio strategol IOM ym mhob ardal.

***Camau i'w cymryd gan bartneriaethau IOM:***

- sicrhau bod pawb o'r staff yn derbyn hyfforddiant digonol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau
- sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol gan yr holl bartneriaid, er mwyn lleihau troseddu ac aildroseddu

- sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o heddlu a staff y gwasanaeth prawf, yn unol â'u sgiliau a'u swyddogaethau perthnasol.

# Pennod 6

## Y Flwyddyn i Ddod

# Pennod 6

# Y Flwyddyn i Ddod

## Rhaglen ar gyfer 2014-15

### 6.1

Bydd ein prif bwyslais ar gyfer 2014-15 yn parhau i fod, fel yn y blynyddoedd diwethaf, ar asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith troseddau oedolion ac ieuenctid mewn sampl o achosion. Trwy archwilio sampl o achosion, rydym yn penderfynu a fydd y gwaith a wneir yn cyflawni'r canlyniadau gofynnol ym mhob achos.

Mae ein rhaglen waith ar gyfer 2014-15 yn cynnwys y 5 maes gwaith allweddol canlynol:

**Maes Gwaith Allweddol 1**
**Datblygu methodoleg addas i'r diben o Arolygu Gwasanaethau Prawf a Throseddau Ieuenctid, canolbwyntio ar ffyrdd effeithiol o leihau aildroseddu a rhoi sicrwydd**

Un agwedd o'n gwaith y byddwn yn rhoi pwyslais allweddol arno yn ystod 2014-2015 fydd datblygu ein methodoleg i'n galluogi ni i roi sylw llawn a phriodol i lwyddiant ein darparwyr wrth leihau aildroseddu, a rhoi sicrwydd ynghylch cyflawni dedfryd y llys a diogelu'r cyhoedd. Bydd y gwaith datblygu hwn yn ein galluogi ni i lansio'n methodoleg arolygu newydd i'w defnyddio yn y cyfnod 2015-2016.

**Maes Gwaith Allweddol 2**
**Arolygu gwaith troseddau ieuenctid (IYOW)**

Rydym ran o'r ffordd trwy ein rhaglen arolygu gwaith troseddau ieuenctid – y Sgrinio Ansawdd Byr a'r Cydarolygiadau Llawn – a byddwn yn cynnal arolwg eleni. Bydd hyn yn archwilio sut y byddai modd:

- cael gafael ar ddata troseddu mwy cyfoes, fesul ardal tîm troseddau ieuenctid
- tynnu mwy o sylw at ganlyniadau yn ein arolygiadau ac adroddiadau
- gwerthuso a chydbwyso gwahanol ffyrdd o gasglu tystiolaeth
- datblygu ein trefniadau cyd-drafod â defnyddwyr gwasanaethau
- byrhau ein hadroddiadau Cydarolygiadau Llawn ac adolygu'r ffordd y'u cyflwynir
- amlygu a lledaenu'r arferion gorau
- ystyried sut y gallem arolygu gwaith atal
- sicrhau mwy o effaith i'n harolygiadau.

Fel rhan o'r broses hon byddwn yn ceisio adborth gan gyrff arolygu ac yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid.
Bwriadwn barhau i gyflawni 20-30 o Sgriniadau Ansawdd Byr a chwe Chydarolygiad Llawn dros y 12 mis nesaf.

**Maes Gwaith Allweddol 3**
**Arolygu gwaith troseddau oedolion yn y gymuned**

Yn ystod 2014-2015, bydd yr arolygiaeth yn chwarae rhan bwysig wrth roi sicrwydd ynghylch y trefniadau a ddatblygir o dan *Gweddnewid Adsefydlu.* Mae meysydd yn y berthynas rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cynnwys risgiau penodol, ac ar y rhain y bwriadwn ganolbwyntio'n sylw.

**Archwiliad llwyth gwaith**

Yn Ebrill a Mai byddwn yn cynnal archwiliad o lwythi gwaith a gynhelir gan ymddiriedolaethau prawf, gan eu cymharu â'r rheini a archwiliwyd 12 mis yn ôl, er mwyn darganfod i ba raddau y mae llwythi achosion a ddelir gan ymddiriedolaethau prawf yn dal i fod yn rhai y gallant ddygymod â hwy yn ystod y cyfnod hwn o newid. Bydd canlyniadau'r archwiliad hwn yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer briffio Gweinidogion.

Bydd arolygiadau eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys pedwar maes cysylltiedig o waith:

1. **Trosglwyddo achosion (Ebrill – Mai 2014)**

   Mae Ymddiriedolaethau Prawf yn ddiweddar wedi cwblhau proses o benderfynu pa achosion a fydd, ar 1 Mehefin 2014, yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a pha rai i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Bwriadwn arolygu canlyniadau'r broses hon trwy gynnal archwiliad o'r ffordd y mae wedi cael ei chynnal ac archwilio cywirdeb y penderfyniadau trosglwyddo mewn sampl o achosion.

2. **Gwaith llys a dyrannu achosion (Gorffennaf – Medi 2014)**

   O fis Mehefin ymlaen, bydd dyrannu achosion yn cael ei wneud ar sail yr asesiad Risg o Aildroseddu Difrifol a'r dull dyrannu, a gwblheir yn arferol yn y llys. Bwriadwn gynnal arolygiad o waith yn y llys, gan ganolbwyntio ar ansawdd y gwaith prawf yn lleoliad y llys ac ansawdd a chywirdeb y penderfyniadau asesu a dyrannu mewn sampl o achosion.

3. **Cychwyn gorchymyn (Gorffennaf – Medi 2014)**

   Mae ymchwil wedi dangos bod yn rhaid i waith gyda throseddwyr, os yw am fod yn effeithiol, gychwyn yn brydlon ac ennyn symbyliad ac ymrwymiad yr unigolyn yn gyflym. Bydd cyfathrebu da rhwng y sefydliadau perthnasol yn bwysig er mwyn sicrhau bod gorchmynion yn cychwyn yn dda. Bwriadwn felly gynnal arolygiad o waith cynnar gyda throseddwyr gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

4. **Arolygu gwaith parhaus gyda throseddwyr (Tachwedd 2014 – Chwefror 2015)**

   Yn hwyrach yn y flwyddyn eleni bwriadwn arolygu gwaith sydd wedi cael ei wneud gyda throseddwyr yn y pedwar mis cyntaf o oruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Bydd yr achosion yn cael eu tynnu o sampl a ddedfrydwyd ar ôl 1 Mehefin, ac a ddyranwyd i'r sefydliadau newydd. Un o'r pethau allweddol y bydd yr arolygiadau hyn yn canolbwyntio arno fydd effeithiolrwydd y prosesau gorfodi a chynyddu risg, yn ogystal ag ansawdd y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod hwn.

## Maes Gwaith Allweddol 4
## Arolygu gwaith troseddau oedolion yn y ddalfa

Yn ystod 2014-2015 byddwn yn arolygu tua 40 o sefydliadau carchar fel rhan o raglen arolygu ehangach Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Yr hyn y byddwn yn canolbwyntio'n benodol arno fydd archwilio effeithiolrwydd trefniadau Rheoli Troseddwyr mewn carchardai er mwyn helpu adsefydlu troseddwyr yn llwyddiannus unwaith y cânt eu rhyddhau o'r ddalfa.
Byddwn hefyd yn cyfrannu at yr arolygiad o drefniadau Rheoli Troseddwyr mewn Carchardai, a gomisiynwyd gan Brif Weithredwr NOMS.

Bydd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi hefyd yn archwilio, gyda chydweithwyr o'r Arolygiaeth Carchardai, sut y gallem ddatblygu ein methodoleg i gynnwys arolygiad o'r gwaith ailsefydlu yn y ddalfa, y trefniadau cysylltiedig trwy Borth y Carchar (Through the Gates) a chysylltiadau â'n harolygiad o fethodoleg gwasanaethau prawf a nodir ym maes gwaith allweddol 1 uchod. Anelwn at daflu goleuni ar effeithiolrwydd elfen y ddalfa o'r ddarpariaeth, a phrofi'r canlyniadau a gyflawnir yn ystod y cyfnod sy'n arwain ar ryddhau carcharor ac yn y misoedd ar ôl eu hailsefydlu i'w cymuned leol.

**Maes Gwaith Allweddol 5**

### Arolygu thematig

Cynhaliwn arolygiadau thematig o waith a wneir gydag oedolion a phlant a phobl ifanc sy'n troseddu, ar y cyd ag arolygiaethau eraill, i ystyried materion trawsbynciol sy'n berthnasol i bob sector, ac fel arolygiaeth sengl ar feysydd i archwilio elfennau o arferion gwaith lle mae gennym ddiddordeb neilltuol.
Cynhwysir ein holl gydarolygiadau thematig yn y Cyd-gynllun ar gyfer pedair arolygiaeth y system cyfiawnder troseddol yn ei gyfanrwydd (a gyhoeddir ar wahân). Mae rhai o'r arolygiadau sy'n cynnwys Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn ymwneud â gwaith troseddau ieuenctid, mae eraill naill ai'n cynnwys troseddau ieuenctid fel dimensiwn ychwanegol, neu'n canolbwyntio ar waith troseddau ieuenctid yn unig.
Yn 2014-15 byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ar y canlynol:

- Genethod a menywod ifanc yn y system cyfiawnder troseddol.
- Trefniadau amddiffyn plant mewn ymddiriedolaethau prawf a Thimau Troseddau Ieuenctid.
- Cyfraniad Timau Troseddau Ieuenctid at y cynllun Teuluoedd Cythryblus.
- Effeithiolrwydd trefniadau ailsefydlu i bobl ifanc a ryddheir o'r ddalfa.
- Ail ran ein harolygiad ar bobl gydag anawsterau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol.

Fel rhan o'n gwaith gydag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill, byddwn yn arwain arolygiad dilynol o Drefniadau Amlasiantaethol Diogelu'r Cyhoedd ac yn cyfrannu at arolygiadau o bartneriaethau cyfiawnder troseddol lleol a hefyd at un ar batrymau sy'n newid o gamddefnyddio cyffuriau o dan arweiniad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Byddwn hefyd yn cynnal ein hymrwymiad i'r arolygiadau amlasiantaethol o amddiffyn plant a drefnwyd i gychwyn ym mis Ebrill 2015.
Yn ogystal, bwriadwn gynnal arolygiadau sy'n archwilio sut mae theori ymatal yn arwain gwaith Timau Troseddau Ieuenctid, ac ar weithdrefnau diogelu cymunedol a digwyddiadau diogelu'r cyhoedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
I'r dibenion hyn byddwn yn parhau i weithio nid yn unig gyda'n cyd-arolygiaethau yn y system cyfiawnder troseddol (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi) ond hefyd gydag Ofsted, y Comisiwn Ansawdd Gofal a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr lle bo'n berthnasol, ac yng Nghymru gydag Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru.


## Dyrannu adnoddau

## 6.2

Rydym wedi creu cyllideb o 27,400 o 'oriau arolygu' sydd ar gael inni ar gyfer 2014-14 [cynnydd o 1,100 o oriau arolygu ar raglen y llynedd] ac wedi eu dyrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Datblygu methodoleg | 3,200 |

| | |
|---|---|
| Troseddau oedolion – yn y gymuned | 7,200 |
| Troseddau oedolion – mewn carchardai | 4,100 |
| Troseddau ieuenctid | 5,400 |
| Arolygiadau thematig | 7,500 |
| **Cyfanswm** | **27,400** |



# Atodiad A – Staff Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi fel yr oedd ar 31 Mawrth 2014

## Staff Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi fel yr oedd ar 31 Mawrth 2014

**Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi**
Paul McDowell

**Prif Arolygwyr Cynorthwyol Ei Mawrhydi**
Julie Fox
Sally Lester
Alan MacDonald
Andy Smith

**Arolygwyr Ei Mawrhydi**
Jane Attwood
Colin Barnes
Mark Boother
Vivienne Clarke
Helen Davies
Yvonne McGuckian
Ian Menary
Jonathan Nason
Caroline Nicklin
Helen Rinaldi
Tony Rolley
Nigel Scarff
Joseph Simpson
Avtar Singh
Les Smith
Liz Smith
Steve Woodgate

**Arolygwyr Cynorthwyol**
Lisa Clarke
Mike Lane
Beverley Reid
Gary Smallman

**Arolygwyr Cyswllt (telir ffioedd iddynt)**
Helen Boocock
Paddy Doyle
Krystyna Findley
Martyn Griffiths
Keith Humphreys
Iolo Madoc-Jones
Joy Neary
Ian Simpkins

**Gwasanaethau Cymorth**

**Pennaeth Gwasanaethau Cymorth**
Andy Bonny

***Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Cymorth (Gwybodaeth a Gweithrediadau)***
Kevin Ball

***Gwybodaeth a Gweithrediadau***
Pippa Bennett (Rheolwr)
Robert Turner (Rheolwr)
Oliver Kenton (Swyddog Ymchwil Cynorthwyol)
Joanna Hewitt
Stephen Hunt
Lynne Osborn
Jane Regan

***Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Cymorth (Corfforaethol, Cyllid a Chyhoeddiadau)***
Penny Rickards

***Corfforaethol, Cyllid a Chyhoeddiadau***
Grace Gibson (Rheolwr)
Charles Luis (Rheolwr)
Alex Pentecost (Rheolwr)
Siobhan Fallous
Adam Harvey
Christopher Reeves
Jamie Smith

***Rheolwr Cysylltiadau'r Wasg a'r Cyfryngau (rhennir gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi)***
Jane Parsons

# Atodiad B – Adroddiadau o Arolygiadau a Gyhoeddwyd yn 2013-14

| Arolygiad o Waith Troseddu Oedolion | Dyddiad Cyhoeddi |
|---|---|
| Swydd Bedford | Awst 2013 |
| Dyfnaint a Chernyw | Medi 2013 |
| Glannau Mersi | Medi 2013 |
| Hampshire | Hydref 2013 |
| Northumbria | Tachwedd 2013 |
| Swydd Northampton | Ionawr 2014 |
| Caerefrog a Gogledd Swydd Efrog | Chwefror 2014 |
| Caint | Mawrth 2014 |
| Norfolk a Suffolk | Mawrth 2014 |

| Arolygiad Rheoli Troseddwyr mewn Carchardai 2 | Dyddiad Cyhoeddi |
|---|---|
| Trydydd Adroddiad Casgliadau Cyflawnv | Gorffennaf 2012 |

| Arolygiad o Droseddau Ieuenctid: Cydarolygiad Llawn | Dyddiad Cyhoeddi |
|---|---|
| Blackpool | Mai 2013 |
| Powys | Mehefin 2013 |
| Croydon | Gorffennaf 2013 |
| Rochdale | Medi 2013 |
| Wrecsam | Ionawr 2014 |
| Portsmouth | Chwefror 2014 |

| Arolygiad o Droseddau Ieuenctid: Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) | Dyddiad Cyhoeddi |
|---|---|
| Bury | Mai 2013 |
| Swydd Hertford | Mai 2013 |
| Milton Keynes | Mai 2013 |
| Oldham | Mai 2013 |
| Swydd Stafford | Mai 2013 |
| Windsor a Maidenhead | Mai 2013 |
| Blaenau Gwent a Chaerffili | Mehefin 2013 |
| Dwyrain Sir Gaer | Mehefin 2013 |

| | |
|---|---|
| Hartlepool | Mehefin 2013 |
| Manceinion | Gorffennaf 2013 |
| Wandsworth | Gorffennaf 2013 |
| Kingston a Richmond Upon Thames | Awst 2013 |
| Stoke on Trent | Awst 2013 |
| Merton | Hydref 2013 |
| Cilgwri | Hydref 2013 |
| Lerpwl | Tachwedd 2013 |
| Tameside | Tachwedd 2013 |
| Newcastle | Rhagfyr 2013 |
| Stockton-on-Tees | Rhagfyr 2013 |
| Wigan | Rhagfyr 2013 |
| Kirklees | Ionawr 2014 |
| Medway | Ionawr 2014 |
| Sandwell | Ionawr 2014 |
| Bro Morgannwg | Ionawr 2014 |
| Gwynedd ac Ynys Môn | Mawrth 2014 |
| Swydd Gaerl□r | Mawrth 2014 |
| Gogledd Swydd Efrog | Mawrth 2014 |
| Solihull | Mawrth 2014 |

| **Arolygiad o Droseddau Ieuenctid: Adroddiadau Arolygiadau Achosion Craidd** | **Dyddiad Cyhoeddi** |
|---|---|
| Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr<br>Adroddiad crynswth o'r canfyddiadau o raglen Arolygiadau Achosion Craidd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi 2009-2012 | Mai 2013 |

| **Adroddiadau Cydarolygiadau Thematig** | **Dyddiad Cyhoeddi** |
|---|---|
| Cydarolygiad o garcharorion ar ddedfrydau oes | Medi 2013 |
| Cysylltu â Dioddefwyr: arolygiad o'r trefniadau cysylltu â dioddefwyr mewn Ymddiriedolaethau | Tachwedd 2013 |
| Cydarolygiad o'r ffordd y caiff troseddwyr sydd ag anableddau dysgu eu trin o fewn y system cyfiawnder troseddol – cam 1 o'r arestio i'r ddedfryd | Ionawr 2014 |
| Cydarolygiad o'r Dull Integredig o Reoli Troseddwyr | Mawrth 2014 |

## Atodiad C – Cyllideb Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar gyfer 2013-14

| | Cyfanswm cyllideb ar gyfer y flwyddyn(£) |
|---|---|
| Cyflogau a hyfforddi staff | £2,702,000 |
| Teithio, cynhaliaeth a gwestyau | £383,000 |
| Llety a chyflenwadau swyddfa | £97,000 |
| TG a thelathrebu | £61,000 |
| Cyfathrebu | £36,000 |

**Cyfanswm Cyllideb £3,279,000**

